

## **Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro**

**Adolygiad o Gynnydd  
yn erbyn Safonau Gofal  
Iechyd i Gymru –  
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth  
2007**

**Hydref 2007**



## Cynnwys

	<b>Tudalen Rhif</b>
<b>1. Cyflwyniad a Chyd-destun .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Proses Asesu 2006-07 .....</b>	<b>5</b>
<b>3. Trosolwg o Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro.....</b>	<b>9</b>
<b>4. Canfyddiadau</b>	
▪ Profiad y Claf .....	<b>11</b>
▪ Canlyniadau Clinigol.....	<b>29</b>
▪ Llywodraethu Gofal Iechyd .....	<b>35</b>
▪ Iechyd y Cyhoedd.....	<b>56</b>
<b>5. Camau Nesaf .....</b>	<b>59</b>
 <b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1: Diffiniadau o Lefel Aeddfedrwydd .....	<b>61</b>
Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon.....	<b>62</b>
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Canlyniadau Corfforaethol, Gweithredol/ Clinigol a Lefelau Profiad y Defnyddiwr.....	<b>69</b>
Atodiad 4: Rhestr Termau .....	<b>71</b>



## 1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro o berfformiad yn 2006-2007 yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru*.

### Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn cyflwyno fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin i gynorthwyo'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

1.3. Yn gyntaf oll, ac yn bennaf, cynlluniwyd y Safonau Gofal Iechyd i ddarparu'r lefelau gofal a thriniaeth gwell y mae gan bobl Cymru hawl i'w disgwyl yn rhesymol ac felly darparu sail y gall sefydliadau gofal iechyd adeiladu arni a gwireddu'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal i gleifion a nodwyd yn strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gofal iechyd<sup>1</sup> yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, beth bynnag fo'r lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd i Gymru'n* nodi 32 o safonau mewn pedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o'r gwerthoedd craidd a ddylai fod yn sail i'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac mae pob safon mewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes yn eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf '*Profiad y Claf*' yn nodi:

---

<sup>1</sup> Diffinir sefydliadau gofal iechyd fel cyrff y GIG yng Nghymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill, yn cynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd i gleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

*Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dewisiadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn amgylcheddau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dewisiadau'r cleifion. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.*

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi y bydd:

*Y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil wedi'i asesu'n briodol, yn nodi sydd ei angen er mwyn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dewisiadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal.*

- Mae'r trydydd maes 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn ei gwneud yn eglur:

*Y bydd gan Ddarparwyr a Chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dewisiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.*

- Mae'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' yn datgan:

*Bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â chyrff perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.*

## **Sicrhau Cydymffurfiad**

1.5. O fis Ebrill 2007 ymlaen, mae'n ofynnol i sefydliadau gofal iechyd GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd a gwneud datganiad cyhoeddus blynyddol o sut y maent wedi perfformio.

1.6. Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu datganiadau a'u hunanasesiadau'n ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o gydgyssylltu profi a dilysu canlyniadau, gan ddefnyddio dadansoddiad sy'n seiliedig ar risg, yn erbyn amrywiaeth o ffynonellau data. Nodir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2006-2007 yn yr adran ganlynol.

1.7. O fis Ebrill 2008, defnyddir cydymffurfiad yn erbyn y safonau gofal iechyd i roi sail i Ddatganiadau Rheoli Mewnol ac Adroddiadau Blynyddol sefydliadau.



## 2. Proses Asesu 2006-2007

### Yr Hunanasesiad

2.1. Mae 2006-2007 wedi bod yn flwyddyn o ddatblygiad a datblygwyd a phrofwyd proses newydd o asesiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r pwyslais wedi bod ar ddatblygu proses asesu sy'n gosod cyfrifoldeb yn bendant ar Fyrddau sefydliadau gofal iechyd am gydymffurfiaid â'r *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ac sy'n cefnogi'r agenda lywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau maent yn eu darparu a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac yn bwysicach y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Mewn ymgynghoriad â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel wahanol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda mae'r Byrddau'n gwneud eu gwaith o ran sicrhau cydymffurfiaid â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut mae cydymffurfiaid yn cael ei sicrhau ar lefel y gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*<sup>2</sup> – sut brofiad mae'r defnyddiwr yn ei gael ac a yw hyn yn gwella?

2.3. Pennwyd meini prawf a chwestiynau asesu ar gyfer pob safon ac fe'u datblygwyd fel dull asesu ar y we sy'n galluogi i hunanasesiadau gael eu cwblhau ar-lein a thystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddwyd i bob cwestiwn i gael ei lanlwytho. Ategir y cwestiynau gan ganllawiau sy'n darparu cyfarwyddyd defnyddiol ar ofynion bob un o'r 32 safon.

2.4. Mae wedi bod yn ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran darparu'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn bob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices

---

<sup>2</sup> Yng nghyd-destun y broses asesu Safonau Gofal, defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu i berfformiad gael ei asesu ar y lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr fel bod ar un o bum lefel o aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymatebol
- Datblygol
- Ymarferol
- Arweiniol

Mae diffiniadau o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn ar gael yn Atodiad 1.

2.5. Gan y bu hon yn flwyddyn o ddatblygiad, mae sefydliadau'r GIG wedi gorfod bodloni rhai terfynau amser tyn ac roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno hunanasesiad i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, tri mis ar ôl i'r dull asesu gael ei ryddhau. Bodlonwyd y terfyn amser gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro a hoffem gydnabod y llwyth gwaith aruthrol, ymdrech ac ymroddiad a ddangoswyd gan yr Ymddiriedolaeth i sicrhau y bodlonwyd y terfynau amser.

### **Profi a Dilysu**

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu'r cyflwyniad hunanasesu gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, ac mae hyn wedi cynnwys nifer o gamau:

- *Cam 1* - Dilysiad pen bwrdd o'r hunanasesiad gan gymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Roedd y cam hwn yn cynnwys nodi pa un a oedd y cwestiynau oedd yn ategu pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi pa un a oedd yr ateb wedi'i gefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso pa un a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r marc aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y sefydliad.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd cymedroli trwy gydol mis Awst i gymharu a chyferbynnu ymatebion a marciau aeddfedrwydd fesul sefydliad a fesul safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol i sicrhau bod y marcio yn gyson ac wedi'u safoni.

- *Cam 3* – Ymweliadau safle â sefydliadau i brofi agweddau ar brofiad y claf/y defnyddiwr.

### **Yr Ymweliad Safle**

2.7. Roedd yr ymweliad safle'n un cam o'r broses o ddilysu a phrofi hunanasesiad Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, ac fel y nodwyd uchod, roeddent yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliadau ar 19, 20 a 21 Medi 2007.

2.8. Ar y diwrnod cyntaf, cynhaliwyd grwpiau ffocws gydag aelodau'r staff a'r cleifion ac ar yr ail ddiwrnod, cynhaliwyd y grŵp ffocws olaf gyda'r cleifion. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd ymweliadau arsylwi a chynhaliwyd cyfweiliadau gydag aelodau'r staff a'r cleifion yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, yr Adran Cleifion Allanol a'r ward gofalu am yr henoed yn Ysbyty Prifysgol Cymru. Ar y trydydd diwrnod, cynhaliwyd ymweliadau arsylwi a chynhaliwyd cyfweiliadau gydag aelodau'r staff a chleifion yn yr Uned Mân-anafiadau a'r Adran Cleifion Allanol yn Ysbyty Cymunedol y Barri a'r Adran Cleifion Allanol a'r ward gofal henoed yn Ysbyty Llandochoau. Yn ogystal ag archwiliadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, cynhaliwyd archwiliadau hyfforddi a gwerthuso ar gyfer yr aelodau staff oedd ar ddyletswydd yn yr adrannau/wardiau uchod ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar gael ar wefan AGIC [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk).

### **Uwchgynadleddau Gofal Iechyd**

2.9. Ym mis Awst, cyd-gysylltwyd a hwyluswyd tri chyfarfod rhanbarthol, 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd', gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gan ddod â chyrrff adolygu ac archwilio ynghyd fel y gellid rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu i'r broses o gadarnhau'r asesiadau Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol wrth symud tuag at rannu mwy o wybodaeth ledled sefydliadau adolygu a datblygu cynlluniau archwilio a sicrhau ar y cyd.



### **3. Trosolwg o Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro**

3.1. Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yw Ymddiriedolaeth fwyaf y GIG yng Nghymru ac mae'n un o'r mwyaf yn y DU. Mae'n ymddiriedolaeth addysgu integredig ac yn darparu gwasanaethau iechyd o ddydd i ddydd i boblogaeth o tua 500,000 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sydd angen triniaeth yn yr ysbyty, gofal iechyd meddwl, gofal i bobl hŷn a phlant yn ogystal ag amrywiaeth gynyddol o wasanaethau cymunedol, yn cynnwys gwasanaethau deintyddol arbenigol a therapïau newydd yn hytrach na gorfod mynd i'r ysbyty.

3.2. Mae cleifion hefyd yn mynychu o bob cwr o Gymru er mwyn derbyn amrywiaeth o wasanaethau arbenigol, yr ystyrir bod yr Ymddiriedolaeth yn ganolfan ragoriaeth ar eu cyfer, yn cynnwys gwasanaethau pediatrig, arenol, cardiaidd a niwrolegol a thrawsblaniadau mêr.

3.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datgan mai ei nod yw "sicrhau rhagoriaeth gan ddarparu gofal diogel, effeithiol ac effeithlon a thrugarog".



## 4. Canfyddiadau – yn cynnwys elfennau o Welliant ac Arferion Da

### 4.1 Profiad y Claf

#### **Safon 1**

*Ymgynghorir â'r cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.*

S1.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S1.2 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r Safon hon ac mae rhai o'r camau hyn yn cynnwys:

- Mabwysiadu *Strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd*.
- Enwebu'r Cyfarwyddwr Nyrsio fel yr Arweinydd Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd.
- Penodi Rheolwr Profiad y Claf.
- Penodi Cydgysylltydd Prosiect Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd.
- Datblygu a sefydlu *Polisi Gwybodaeth Ysgrifenedig*.
- Cynhyrchu Canllaw Arddull Corfforaethol a chanllaw i aelodau'r staff.
- Cyflwyno Grŵp Cyfathrebu.
- Mabwysiadu Polisi Cyfathrebu Effeithiol.
- Grŵp Cyswllt Cyngor Iechyd Cymuned.
- Cynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymuned ar Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Panel Cleifion.
- Sefydlu Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Chydraddoldeb Rhywiol.

S1.3 Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o fecanweithiau hysbysu neu fonitro'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae dystiolaeth o gyfeiriad strategol ac rydym o'r farn mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol, nid Ymatebol.

S1.4 Mae'r Prosiect Canlyniadau Gwella Iechyd Cleifion (HIPO) yn broses barhaus sy'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i fonitro a gwella gofal yn barhaus. Fe'i sefydlwyd yn 2002 mewn cydweithrediad â chwmni ymchwil allanol. Mae'r Prosiect yn casglu gwybodaeth am fodlonrwydd cleifion ac ansawdd bywyd y cleifion hynny sy'n mynychu Ysbytai Prifysgol Cymru, Llandochau, Rookwood ac Ysbyty Brenhinol Caerdydd, i gynhyrchu cronfa ddata y gall rheolwyr ac aelodau'r staff ei defnyddio i wneud gwaith ymchwil ac archwilio. Anfonir arolygon post i'r cleifion hynny sydd wedi derbyn triniaeth fel cleifion mewnol a/neu achos dydd ar ôl iddynt adael yr ysbyty, ac mae'r arolygon hyn yn cynnwys cwestiynau am:

- Ansawdd bywyd.
- Demograffeg.
- Bodlonrwydd cleifion.

S1.5 Hefyd, mae cynllun "blwch awgrymiadau" wedi'i sefydlu i sicrhau y rhoddir cyfle i bob claf, defnyddiwr gwasanaeth, perthynas a gofalwr gynnig adborth ar ei brofiad. Gosodwyd blychau a thafleuni awgrymiadau ledled yr Ymddiriedolaeth ac maent yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Statws yr unigolyn sy'n cwblhau'r daflen.
- Safle'r Ysbyty/Clinig.
- Yr hyn mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud yn dda.
- Yr hyn y gallai'r Ymddiriedolaeth ei wneud yn well.

S1.6 Cadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth hefyd bod trafod â rhanddeiliaid yn rhan o adolygiadau datblygu gwasanaethau.

S1.7 Ni ddarparodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth o'r ffordd y mae aelodau'r staff ar lefel leol yn dylanwadu ar y broses o gasglu sylwadau na'r ffordd y mae sylwadau'n cael eu cynnwys yn y Broses Asesu Effaith Cydraddoldeb - mae'n ymddangos bod yr Ymddiriedolaeth wedi camddeall y cwestiwn. Hefyd, ni atebwyd y cwestiwn am y ffordd y mae strategaethau, polisiâu a gweithdrefnau'n cael eu defnyddio ledled y rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol yn briodol. Fodd

bynag, darparwyd digon o dystiolaeth o weithgarwch a gyflawnir ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol yn y cwestiynau eraill a atebwyd i gefnogi asesiad **Datblygol**.

S1.8 Ni nododd yr Ymddiriedolaeth sut mae bodlonrwydd cleifion yn cael ei fonitro ledled y meysydd cydraddoldeb. Nid oedd yn dangos chwaith sut mae prosesau adborth yn cael eu gwerthuso, er y cyfeiriwyd at asesiad llinell sylfaen o Wasanaethau Cymorth i Gleifion a gyflawnwyd yn 2005. Fodd bynnag, darparodd yr Ymddiriedolaeth amrywiaeth o enghreifftiau o newidiadau a wnaed o ganlyniad i gwynion ac adborth gan y Cyngor Iechyd Cymuned. Rydym o'r farn mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

## **Safon 2**

*Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:*

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;*
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S2.2 Nid yw ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r cwestiwn ar y lefel Gorfforaethol yn mynd i'r afael â'r ffordd mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn penderfynu ar anghenion iechyd y boblogaeth ac yn ymateb iddynt. Mae'r ymateb yn canolbwyntio ar reoli galw a threfniadau moderneiddio a sefydlwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro fel comisiynwyr arweiniol. Cyfeirir hefyd at Gynllun Darparu Lleol ac mae'r strategaeth rheoli galw a chynlluniau moderneiddio'r BILI arweiniol yn cyfrannu at y Cynllun hwn.

S2.3 Rheolir gwahanol fathau o alw a gofynion sydd o bosibl yn cystadlu ac sy'n deillio o wahanol safonau, canllawiau a pholisïau cenedlaethol drwy'r strwythurau Llywodraethu Clinigol a nodir yn Strategaeth Llywodraethu Clinigol yr

Ymddiriedolaeth. Mae Pwyllgor Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth hefyd yn nodi risgiau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau o'r fath.

S2.4 Nid oedd yn eglur o ymateb yr Ymddiriedolaeth sut mae'r Bwrdd yn cael ei sicrhau o degwch o ran mynediad at yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu. Mae'r ymateb yn canolbwyntio ar gynlluniau i ddatrys diffygion o ran gallu, ond nid yw'n nodi sut mae'r Bwrdd yn monitro Perfformiad yn erbyn targedau mynediad nad ydynt yn dargedau brys. Rydym yn asesu'r Ymddiriedolaeth yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol felly.

S2.5 Cyflwynir adroddiadau misol rheolaidd i'r Bwrdd Rheoli ar berfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol a lleol. Mae'r Pwyllgor Safonau Clinigol a Phrofiad y Claf yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gydymffurfiaid â Chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ac adroddiadau'r Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau Cleifion a Marwolaeth.

S2.6 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod aelodau'r staff, yn cynnwys clinigwyr, yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu atebion priodol ar gyfer cyrraedd targedau mynediad nad ydynt yn dargedau brys drwy'r Cynllun Darparu Lleol a bod perfformiad yn erbyn y targedau hyn wedi gwella. Mae systemau ar gyfer monitro cydymffurfiaid a pherfformiad yn erbyn tystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol wedi'u sefydlu hefyd. Rydym yn asesu mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol felly.

S2.7 Mae'n ymddangos bod yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n gyfan gwbl ar glinigwyr i hysbysu a chynghori cleifion am dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae'n datgan hefyd y dylai aelodau'r staff ofyn i'w corff proffesiynol eu hunain am gyfarwyddyd ar ganiatâd, ac mae hyn yn peri pryder ac yn fater rydym yn ei drafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Nid oedd yn glir sut mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ar gael i gleifion. Y cwbl y mae'r ymateb yn ei ddatgan yw bod yr Ymddiriedolaeth yn hyderus y bydd yn darparu *gan dybio na fydd unrhyw dwf*. Roedd y cleifion yn teimlo bod y cyfnodau yr oedd rhaid aros am apwyntiadau arferol yn hir, ond bod y cyfnod

aros yn lleihau ar gyfer y rhai sydd angen apwyntiadau brys. Yn benodol, roedd y cleifion yn teimlo eu bod yn aros amser hir am ganlyniadau profion.

S2.8 Ar sail ymatebion hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth, a chanlyniadau'n hymweliadau safle, rydym o'r farn mai **Ymatebol** yn unig yw'r Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 3**

*Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.*

S3.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S3.2 Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd am berfformiad o ran cyrraedd yr holl dargedau mynediad brys (95% o gleifion i dreulio llai na phedair awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ac ni ddylai unrhyw gleifion aros mwy na wyth awr). Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod y Bwrdd yn derbyn adroddiadau manwl, a bod gwybodaeth dda am dargedau mynediad a derbyniadau brys ar gael. Bu sawl gwelliant i wasanaethau a phrosesau i wella profiad a chyfnodau aros y claf, fel y gwelliannau a wnaed i brosesau ar gyfer ffrydio pobl ifanc dan oed ac achosion pediatrig sy'n mynychu'r Uned Achosion Brys yn Ysbyty Prifysgol Cymru.

S3.3. Hysbysir aelodau'r staff am berfformiad cyfredol yn erbyn targedau brys cenedlaethol mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn cynnwys cyfarfodydd byffer am 8.30 bob bore yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys i adolygu perfformiad y diwrnod blaenorol, adroddiad wythnosol ar berfformiad, defnyddio ffolderi cyfathrebu sydd ar gael i bob aelod o dimau, cyfarfodydd dyddiol gyda'r tîm rheoli gwelyau.

S3.4 Mae Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro'n un o'r ymddiriedolaethau sy'n perfformio waethaf yng Nghymru o ran bodloni'r targed Damweiniau ac Achosion Brys pedair awr - dim ond 76.6% o gleifion a welir o fewn yr amser hwn a 93.3% yn unig a welir o fewn wyth awr.

S3.5 Mae “gweithfan yr Uned Achosion Brys” yn ddull sy'n cysylltu System Rheoli Cleifion yr Ymddiriedolaeth gyda System Jonah ac mae'n defnyddio system goleuadau traffig i greu darlun gweledol i aelodau'r staff o sefyllfa pob claf o ran y targed aros am bedair awr. Mae'r lliw'n newid i ddu pan fydd pedair awr wedi mynd heibio. Mae'r system yn amlygu rhesymau gwirioneddol a rhesymau posibl am fethu â bodloni'r targed ac yn cynnig awgrymiadau defnyddiol ar sut i alluogi aelodau'r staff i atal achosion o fethu â bodloni'r targed neu i ddatrys achosion o'r fath sydd wedi digwydd.

S3.6. Oherwydd y dystiolaeth o waith monitro'r Bwrdd, y monitro dyddiol ar lefel weithredol a'r gwelliannau a wnaed, rydym yn cytuno mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol. Fodd bynnag, gan fod problemau'n parhau i fodoli o ran bodloni targedau mynediad yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys rydym o'r farn mai **Ymatebol** yn unig yw'r asesiad ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

#### **Safon 4**

*Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:*

- a. yn hybu lles y cleifion a'r staff;*
- b. yn parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c. yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff;*
- ch. yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S4.2 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae rhai o'r camau hyn yn cynnwys:

- Enwebu Cyfarwyddwr gweithredol fel Hyrwyddwr Dylunio ar gyfer yr holl adrannau newydd.

- Y Bwrdd wedi derbyn a chymeradwyo adroddiad a rhaglen Gyfalaf y Strategaeth Dân Flynyddol.
- Penodi Swyddog Ynni sy'n gyfrifol am lunio a goruchwyllo'r gwaith o sefydlu cynlluniau arbed ynni.
- Polisi Datblygu Cynaliadwy.
- Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Amgylchedd sy'n cael ei chymeradwyo a'i monitro gan y Bwrdd.

S4.3 O ran ei swyddogaeth o sicrhau bod amgylcheddau gofal iechyd yn cydymffurfio â gofynion statudol yn ymwneud â diogelwch, anghenion, preifatrwydd a chyfrinachedd y cleifion ac aelodau'r staff, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu'r trefniadau canlynol:

- Tîm Iechyd a Diogelwch.
- Uned Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Adran Ystadau.
- Adran Ddiogelwch.
- Cyflogi Cynghorwyr Diogelwch Personol.
- Polisi Iechyd a Diogelwch.
- Polisi Diogelwch Tân.
- Polisi Diogelwch Personol.
- Penodi pedwar swyddog tân.
- Polisi Diogelwch.
- Polisi Cydraddoldeb.
- Hyrwyddwr Cydraddoldeb ar lefel y Bwrdd.
- Cynghorydd Polisi Corfforaethol.
- Cydbwyllgor Iechyd a Diogelwch ar y cyd rhwng y rheolwyr ac aelodau'r staff; sydd â nifer o is-bwyllgorau; yn cynnwys y Grŵp Rheoli Gwastraff, Grŵp y Strategaeth Ddiogelwch, Grŵp Strategaeth y Polisi Smygu a Grŵp Adolygu'r Polisi Straen.
- Cyllideb Iechyd a Diogelwch.
- Trydan – polisi "Gweithio'n Ddiogel gyda Thrydan".
- Polisi Rheoli'r Amgylchedd.
- Clefyd y Lleng Filwyr - Polisi Rheoli Clefyd y Lleng Filwyr.

- Polisi Rheoli Gwastraff.
- Gofyniad gan yr Ymddiriedolaeth i'w swyddogion arbenigol gytuno ar bob dyluniad terfynol ym meysydd Tân, Iechyd a Diogelwch, Rheoli Heintiau, y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac ati. Mae'r gofynion hyn wedi'u cynnwys ym mhrotocolau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer dylunio datblygiadau Cyfalaf.
- Datblygiad yr agenda Hanfodion Gofal sy'n mynd i'r afael ag anghenion fel preifatrwydd ac urddas.

S4.6 Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau blynyddol ar weithrediad ac effeithiolrwydd ei Bolisi Diogelwch Tân a safonau iechyd a diogelwch. Cynhaliwyd archwiliadau o gydymffurfiaid â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ledled yr Ymddiriedolaeth.

S4.7 Nodom mai 2002 oedd y dyddiad ar Bolisi Diogelwch yr Ymddiriedolaeth. Mae'n ymddangos na chafodd ei adolygu ar ôl y flwyddyn gyntaf fel y bwriadwyd. Nid oedd y llinell atebolrwydd ar gyfer materion diogelwch, a swyddogaeth y Bwrdd o ran monitro, gwerthuso a dylanwadu'n wirioneddol ar amgylcheddau gofal iechyd yn eglur, ac mae'n ymddangos ei fod yn derbyn adroddiad blynyddol ar faterion iechyd a diogelwch yn unig. Rydym o'r farn felly mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol; gan fod yr Ymddiriedolaeth yn symud tuag at aeddfedrwydd Ymarferol mewn rhai agweddau ar y safon hon, ond nid yw hyn yn wir am bob agwedd.

S4.8 Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r cwestiwn '*Sut mae aelodau'r staff yn dylanwadu ar y gwaith o ddylunio a datblygu amgylcheddau gofal iechyd?*' yn datgan bod aelodau'r staff yn cymryd rhan ym mhob cam o ddatblygiad newydd fel rhan o'r broses cynnwys rhanddeiliaid. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o hyn a dim ond datblygiadau newydd yr oedd yr ymateb yn eu trafod. Anogir aelodau'r staff i hysbysu desg gymorth yr Adran Ystadau am unrhyw faterion cynnal a chadw, ac mae pob galwad yn cael ei logio a'i monitro. Mae Cynghorydd Cydraddoldeb yr Ymddiriedolaeth yn cynorthwyo'r Adrannau a'r Cyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau cydraddoldeb yn cael eu monitro a'u cyflawni.

S4.9 Mae Uned Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yr Ymddiriedolaeth yn darparu hyfforddiant mewn amrywiaeth o fforymau, yn cynnwys ymsefydlu corfforaethol. Darperir hyfforddiant diogelwch personol hefyd a chroesawyd hyn gan aelodau'r staff.

S4.10 Gan ymateb i'r cwestiwn '*Sut y sicrheir diogelwch aelodau'r staff ledled y sefydliad?*' darparodd yr Ymddiriedolaeth fanylion mesurau sydd ar waith i sicrhau bod aelodau'r staff yn ddiogel rhag trais ac ymosodiadau, ond ni chynigiwyd yr agweddau iechyd a diogelwch ehangach.

S 4.11 Mae cyfarfodydd a gynhelir bob chwarter gyda'r gymdeithas trigolion lleol a Phroses Panel Cleifion yr Ymddiriedolaeth yn cynnig cyfleoedd i gleifion a'r cyhoedd ddylanwadu ar y gwaith o ddylunio a datblygu amgylcheddau gofal iechyd. Fel y nodwyd yn gynharach, mae prosesau cynnwys rhanddeiliaid wedi'u sefydlu ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos newidiadau a wnaed i wella'r amgylchedd gofal yn ystod y 12 mis diwethaf, a darparwyd manylion am ddigwyddiadau oedd yn gysylltiedig â'r amgylchedd a'r camau a gymerwyd.

S4.12 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ond dylid nodi bod aelodau'r staff a chleifion wedi codi pryderon nad oedd rhai o adeiladau'r Ymddiriedolaeth yn addas ar gyfer eu diben. Roedd Ysbyty'r Eglwys Newydd o bryder sylweddol i lawer o'r rhai y siaradom â hwy.

### **Safon 5**

*Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd*

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn;*
- c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S5.2 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae rhai o'r camau hyn yn cynnwys:

- Sefydlu Strategaeth Lanhau.
- Grŵp y Strategaeth Lanhau.
- Mae Cadeirydd y Bwrdd wedi cymryd cyfrifoldeb Hyrwyddwr Cleifion.
- Mabwysiadu proses ar gyfer neilltuo swyddogion cyfrifol i sicrhau cydymffurfriad â deddfwriaeth debyg i'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chlefyd y Rheng Filwyr a Thrydan a'r Gweithle.
- Sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol ac adrodd arnynt bob mis i'r Bwrdd drwy grŵp y Gwasanaeth Cyfleusterau a Chymorth Clinigol.
- Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan.
- Penodi Cyfarwyddwr Rheoli Heintiau.
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r GICC ar gyfer darparu gwasanaethau labordy a chynghor microbiolegol a firoleg.
- Rhaglenni hyfforddiant.
- Taflenni gwybodaeth i gleifion, perthnasau ac ymwelwyr.
- Arddangos posteri ar lendid dwylo mewn ardaloedd cleifion.

S5.3 Cynhelir Archwiliadau rheolaidd o lendid ar y cyd gan y Goruchwylwyr Cymhennu a Rheolwyr Wardiau. Cyflwynwyd system a ddefnyddir â llaw i hwyluso'r archwiliadau hyn ac mae sgôr cyffredinol wedi'i gynnwys ar Gerdyn Sgorio Cytbwys yr Ymddiriedolaeth a gyflwynir i'r Bwrdd. Hefyd, cynhelir archwiliadau '*meddwl yn lân*' amlddisgyblaeth ar gyfer pob safle, a'u nod yw gwella'r amgylchedd, a chwblheir cynlluniau gweithredu lle mae angen cymryd camau. Roeddem yn falch o weld bod Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent wedi cytuno i drefniadau monitro prosesau glanhau traws-safle a thraws-Ymddiriedolaeth. Mae hyn i'w ganmol.

S5.4 Is-bwyllgor i'r Pwyllgor Safonau Clinigol a Phrofiad y Claf yw Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau

blynyddol i'r Pwyllgor Safonau Clinigol a Phrofiad y Claf a gellir llunio adroddiadau eithrio ar sail ad-hoc yn ôl y gofyn. Mae'r Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau'n cyfarfod bob chwarter. Rydym yn amau a yw'r trefniadau hyn yn briodol, gan ei bod yn ymddangos nad oes digon o wybodaeth reolaidd yn cael ei rhoi i'r Bwrdd.

S5.5 Fel rhan o'n hymweliadau safle, codwyd pryderon am allu aelodau'r staff glanhau i lanhau'r wardiau'n iawn. Dywedwyd wrthym fod aelodau'r staff glanhau wedi'u haseinio i ardal yn ystod bore bob diwrnod yn unig, ac ar ôl hynny bod rhaid ymdrin ag unrhyw broblemau pan fydd gan y glanhawyr amser. Hefyd, codwyd pryderon am addasrwydd y ddarpariaeth o doiledau a pha mor lân ydynt yn Ysbyty Prifysgol Cymru ac Ysbyty Llandochau.

S5.6. Er ein bod yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, rydym yn poeni ei bod yn ymddangos o ymateb yr Ymddiriedolaeth a'r dystiolaeth ategol nad oes digon o adrodd rheolaidd na digon o ystyriaeth o faterion rheoli heintiau ar lefel y Bwrdd. Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn bellach.

### **Safon 6**

*Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:*

- a. *yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- b. *yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth;*
- c. *rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth i drafod a chytuno ar ddewisiadau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S6.2 Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn cyfeirio at y canlynol a sefydlwyd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn gwahanol ffyrdd a gwahanol fformatau er mwyn diwallu gwahanol anghenion iaith, cyfathrebu, corfforol a diwylliannol ei defnyddwyr gwasanaeth. Maent yn cynnwys:

- Polisi Cyfathrebu.
- Polisi Cydraddoldeb a chyfres o Gynlluniau Cydraddoldeb a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.
- Polisi ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Cyflwyno gwasanaethau i Geiswyr Lloches.
- Iaith Arwyddion Prydain a Llinell Iaith ar gael i bob cyfarwyddiaeth yn cynnwys gwasanaethau cymunedol.
- Darparu rhestr o weithwyr cyflogedig yr Ymddiriedolaeth sy'n barod i ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd.
- Canllawiau i weithwyr cyflogedig ar gyfer adnabod a hwyluso gwahanol anghenion ieithyddol a diwylliannol fel y nodir yng Nghanllaw Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Gweithwyr Cyflogedig.
- Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched yn darparu Gwasanaeth Croesawu.
- Defnyddio dull Asesu Unedig ar gyfer asesu anghenion pob oedolyn a dderbynnir gan yr Ymddiriedolaeth.
- Defnyddio Dull Rhaglen Ofal yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

S6.3 Ni ddarparodd yr Ymddiriedolaeth ymatebion oedd wedi'u datblygu na'u cefnogi'n dda i'r cwestiynau a osodwyd ar gyfer y safon hon. Ni eglurwyd mecanweithiau adrodd a monitro'r Bwrdd ac ni roddwyd digon o bwyslais ar ddarparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch, yn enwedig yn yr ymateb i *'Sut mae'r Bwrdd yn sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau ar gael ac yn hygyrch i bawb yn brydlon.'*

S6.4 Dywedodd y cleifion wrthym fod ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd gan aelodau'r staff ymgynghori am eu cyflwr yn amrywio, ac yn aml yn dibynnu ar yr arbenigedd. Nid oedd rhai cleifion yn ymwybodol o'r wybodaeth oedd ar gael iddynt. Fe wnaethom nodi nad oedd yr holl daflenni gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg), ac ni welsom unrhyw daflenni ar gael mewn ieithoedd eraill. Roedd copïau o daflenni cyngor a ddsbarthir gan adrannau Damweiniau ac

Achosion Brys a mân-anafiadau wedi'u cynnwys yng nghyflwyniad yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, roedd pob un o'r rhain yn uniaith Saesneg.

S6.5 Ar sail ymateb yr Ymddiriedolaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd, rydym yn ystyried mai **Ymatebol** yw'r asesiad ar bob lefel o'r safon hon. Byddem wedi disgwyl i Ymddiriedolaeth fawr sydd wedi'i lleoli yng nghanol dinas ag amrywiaeth o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn byw yn yr ardal ac yn y cyffiniau allu dangos llawer mwy o waith yn y maes hwn.

### **Safon 7**

*Mae'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.*

S7.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S7.2 Yn ei ymateb, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfeirio at:

- Y Dull Cynllunio Gofal ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl.
- Grŵp llywio Hanfodion Gofal.
- Cynllun Gweithredu a Chynllun Cydraddoldeb Rhywiol ac Anabledd yr Ymddiriedolaeth.

S7.3 Fodd bynnag, prin iawn oedd y wybodaeth a ddarparwyd o ran swyddogaeth y Bwrdd o sicrhau dull strategol o ymdrin â'r Safon hon, er y darparwyd gwybodaeth am fecanweithiau adrodd a monitro i sicrhau bod cleifion yn cyfrannu at eu cynlluniau gofal. Hefyd, gan ymateb i'r cwestiwn am adnoddau a nodwyd gan y Bwrdd, cyfeiriwyd at strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd yr Ymddiriedolaeth yn unig. Rydym o'r farn mai dim ond **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol felly.

S7.4 Rydym hefyd o'r farn mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn rhoi manylion hyfforddiant a ddarperir i aelodau'r staff mewn atal achosion ailadroddus a datblygu

arwyddion o achosion ailadroddus, Hanfodion Gofal ac ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb a Diwylliant. Fodd bynnag, mae'r hyn a ddisgrifir yn arfer safonol, ac mewn sawl achos, nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn berthnasol i'r cwestiwn a ofynnwyd.

S7.5 Darparodd yr Ymddiriedolaeth enghreifftiau penodol o gleifion yn gweithio mewn partneriaeth ag aelodau'r staff i'w hymrymuso i wneud penderfyniadau am eu cynlluniau gofal, ond roedd yr ymateb i'r cwestiwn am werthuso effeithiolrwydd cynlluniau'n wan. Fodd bynnag, rydym yn cytuno ag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 8**

*Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:*

- a. bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; ac*
- ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, a eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol, **Datblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S8.2 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod strategaethau wedi'u sefydlu i sicrhau cydymffurfriad â chanllawiau cenedlaethol ar urddas, parch a chaniatâd ar sail gwybodaeth. Mae camau a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys:

- Mabwysiadu Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Strwythur Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; aelod anweithredol o'r Bwrdd sy'n cadeirio'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Sefydlu swyddogaeth Cyngorydd Cydraddoldeb corfforaethol.
- Mae gan bob Grŵp Gwasanaeth a Chyfarwyddiaeth Weithredol Adnoddau Dynol, Nyrsio a Datblygiad 'Hyrwyddwyr Cydraddoldeb', sy'n arwain yr agenda cydraddoldeb, sy'n cynnwys datblygu cynlluniau gweithredu ar gydraddoldeb lleol ar gyfer eu gwasanaethau.

- Mabwysiadu Cynlluniau Cydraddoldeb amrywiol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig. Mae gan y Bwrdd arweinydd gweithredol penodedig ar gyfer pob cynllun.
- Sefydlu grŵp llywio amlddisgyblaeth ar gyfer datblygu argymhellion Hanfodion Gofal.
- Sefydlu is-grŵp Cydraddoldeb Cyflogaeth.
- Aseidiadau o effaith polisiâu ar gydraddoldeb, yn cynnwys polisiâu cyflogaeth.
- Monitro arferion cwynion, camau disgyblu, recriwtio, dethol, hyfforddi a chyflogi gweithwyr cyflogedig o ran cydraddoldeb mewn perthynas ag oedran, rhyw, anabledd a grŵp ethnig.
- Mabwysiadu Polisi Urddas yn y Gweithle, Siarter Staff a Pholisi Disgyblu.
- Mabwysiadu Polisi Caniatâd a Hysbysir gan yr Ymddiriedolaeth a chanllawiau cysylltiedig.
- Sefydlu polisiâu Diogelwch TG a Diogelu Data.
- Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth.
- Sefydlu trefniadau Caldicott.

S8.4 Darparodd yr Ymddiriedolaeth nifer o enghreifftiau o'r ffordd mae aelodau'r staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o bwysigrwydd trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'i gilydd gydag urddas a pharch, yn cynnwys strategaeth hyfforddiant cydraddoldeb cyffredin, hafan gydraddoldeb ar Fewnrwyd yr Ymddiriedolaeth a hyfforddiant gofalu am gwsmeriaid. Roeddem yn fodlon hefyd bod systemau wedi'u sefydlu i sicrhau y darperir cyfleoedd i aelodau'r staff gynnig eu sylwadau ar y ffordd maent yn cael eu trin.

S8.5 Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth bod hyfforddiant a ddarperir i aelodau'r staff yn cael ei werthuso na bod cydymffurfiad â pholisiâu cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth yn cael eu monitro. Rydym yn nodi hefyd bod y Polisiâu Diogelu Data a Diogelwch TG a ddarparwyd i ni fel rhan i'r dystiolaeth ategol yn hen, gan y disgwyliwyd iddynt gael eu hadolygu ym mis Ionawr 2006 a mis Ebrill 2005 yn eu trefn.

S8.6 Darparodd yr Ymddiriedolaeth gyfres o enghreifftiau o welliannau a wnaed yn sgil sylwadau a chwynion gan gleifion ac aelodau'r staff. Hefyd, ni amlygwyd unrhyw bryderon am gyfrinachedd gwybodaeth ynglŷn â chleifion yn ystod ein hymweliad safle.

S8.7 Rydym o'r farn mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

### **Safon 9**

*Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:*

- a. *bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau diet cytbwys; a*
- b. *bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran diet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S9.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod strategaethau a pholisïau wedi'u sefydlu i sicrhau cydymffurfiad â'r Safon hon, ac yn sgil y dystiolaeth a ddarparwyd rydym o'r farn mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol ac **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Mae camau a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth i sicrhau cydymffurfiad â'r safon hon yn cynnwys:

- Sefydlu Grŵp Llywio Fframwaith Maeth ac Arlwyio amlddisgyblaeth a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Nyrsio.
- Mabwysiadu Polisi Maeth ac Arlwyio.
- Cyflwyno safonau maeth ar gyfer darparu prydau cleifion.
- Canllawiau ar sgrinio maeth a sgrinio anghenion maeth cleifion pan maent yn cyrraedd yr ysbyty ac ar adegau allweddol yn ystod eu harhosiad.
- Mabwysiadu Polisi Arlwyio a Hylendid Bwyd lleol.
- Canllawiau Maeth ar gyfer Cynllunio Bwydlenni.
- Sefydlu gofynion hyfforddiant ar gyfer aelodau staff sy'n rhan o'r gwasanaeth prydau bwyd i gleifion.

- Darparu gwasanaeth arlwyo/cynnal ar wardiau fel y gall cleifion ddewis eu prydau bwyd ar y pryd yn hytrach nag archebu ymlaen llaw.
- Rhaglen hyfforddiant hylendid bwyd barhaus.
- Archwiliadau diogelwch bwyd rheolaidd.
- Prosesau cynllunio bwydlenni sy'n ystyried anghenion y grŵp cleientiaid - cardiaidd, Arennol, bwyd bysedd, Pediatrig er enghraifft. Mae bwydlenni Halal A la Carte a Kosher ar gael a sefydlwyd grŵp 'bwydlenni meddal' i ystyried dewisiadau. Sefydlwyd y grŵp ar ôl derbyn adborth gwael gan gleifion.
- Cyflwyno proses Amddiffyn Prydau mewn 23 o feysydd clinigol a nodwyd gan Archwiliad Cymorth i Fwyta'r Ymddiriedolaeth.
- Cyflwyno'r system 'Hambwrdd Coch'.
- Cyflogi Cynorthwyr Bwydo Dietetig ar wardiau aciwt ac adsefydlu i gynorthwyo pobl i fwyta a sicrhau nad ydynt yn sychedig.
- Cydweithio agos rhwng dietegwyr a therapyddion lleferydd ac iaith.

S9.3. Er mwyn ategu'r Polisi Maeth ac Arlwyo cyfredol, mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu Strategaeth Arlwyo a fydd o gymorth i ddarparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y gwasanaeth arlwyo yn yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cynnal asesiad llinell sylfaen o nifer y cleifion sydd angen cymorth gyda'u prydau bwyd ac sy'n datgan y bwriad o wneud hyn yn rhan o waith cynllunio'r gweithlu. Sefydlwyd dau Dîm Cymorth Maeth ac maent yn cynorthwyo i reoli'r cleifion sydd â'r problemau maeth mwyaf difrifol. Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am ddatblygu polisi llwybrau bwydo amgen, fel trwyn i'r stumog/trwynol-jejwnol a'i roi ar waith.

S9.4 Darparodd yr Ymddiriedolaeth amrywiaeth o enghreifftiau lle cyflawnwyd neu cynlluniwyd newidiadau yn sgil adborth gan aelodau'r staff a chleifion. Mae gan y cleifion fynediad at amrywiaeth o fyrbrydau a diodydd ar gais y tu allan i amseroedd prydau bwyd.

S9.5 Sylwom yn ystod ein hymweliadau safle bod proses amddiffyn prydau bwyd ar waith a bod aelodau staff dietetig ar gael i gynorthwyo'r cleifion ddewis prydau llawn maeth a oedd yn berthnasol i'w hanghenion. Roedd mwyafrif y cleifion o'r farn bod y

bwyd a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth yn dda. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr felly.

### **Safon 10**

*Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.*

S10.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S10.2 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod strategaethau a pholisïau wedi'u sefydlu i sicrhau na wahaniaethir yn annheg yn erbyn pobl sy'n derbyn gofal iechyd ar sail oedran, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn fodlon cytuno felly ag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol. Mae camau a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys:

- Mabwysiadu Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Strwythur Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; aelod anweithredol o'r Bwrdd sy'n cadeirio'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Sefydlu swyddogaeth Cyngorydd Cydraddoldeb Corfforaethol.
- Cyflwyno Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ar lefelau grwpiau gwasanaeth a chyfarwyddiaeth sydd wedi datblygu cynlluniau gweithredu ar gydraddoldeb lleol.
- Mabwysiadu Cynlluniau Cydraddoldeb amrywiol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig. Mae gan y Bwrdd arweinydd gweithredol penodedig ar gyfer pob cynllun.
- Sefydlu is-grŵp Cydraddoldeb Cyflogaeth.
- Asesiadau o effaith polisïau ar gydraddoldeb, yn cynnwys polisïau cyflogaeth.
- Sefydlu Strategaeth Hyfforddiant Cydraddoldeb.
- Cyflwyno Fforwm Rhanddeiliaid.
- Adroddiadau i'r Bwrdd ar faterion Cydraddoldeb ddwywaith y flwyddyn.

S10.3 Mae gan aelodau'r staff fynediad i hyfforddiant a gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae elfennau cydraddoldeb ac urddas wedi'u prif

ffrydio ym mhob rhaglen hyfforddi berthnasol. Sefydlwyd rhaglen barhaus o hyfforddiant Asesu Effaith Cydraddoldeb ac mae amrywiaeth o ddulliau ar gael i gynorthwyo aelodau'r staff i wella eu harferion. Roedd yr enghreifftiau o newidiadau a wnaed i'r ddarpariaeth o wasanaethau i ymateb i anghenion grwpiau/unigolion penodol yn wan, ac nid oeddent yn dangos sut y diwallwyd anghenion unigolion gan eu bod yn cyfeirio at newidiadau a wnaed i brosesau lefel uchel. Rydym yn asesu mai **Ymatebol** yw'r Ymddiriedolaeth ar y lefelau Canlyniadau gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr felly.

## 4.2 Canlyniadau Clinigol

### **Safon 11**

*Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:*

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;*
- b. y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;*
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a*
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.*

S11.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S11.2 Mae Datganiad Cenhadaeth yr Ymddiriedolaeth yn datgan mai ei “*nod yw cyflawni rhagoriaeth gan ddarparu gofal diogel, effeithiol ac effeithlon a thrugarog*”.

S11.3 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod strwythurau, strategaethau a pholisiau wedi'u sefydlu i sicrhau bod gofal a thriniaethau clinigol a ddarperir yn seiliedig ar y dystiolaeth orau, a thrwy sefydlu'r canlynol:

- Strategaeth Llywodraethu Clinigol.
- Pwyllgor Safonau Clinigol a Phrofiad y Claf.
- Gweithgor NICE sy'n monitro'r gwaith o sefydlu canllawiau NICE.
- Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.
- Adran Archwilio Clinigol.
- Rhaglen Llywodraethu Clinigol.
- Rhaglen Archwilio Clinigol.
- Protocol Archwilio Clinigol.
- Rheolwr Llywodraethu Clinigol.

S11.4 Sefydlwyd y Gweithgor NICE i reoli gwybodaeth NICE yn rhagweithiol a chytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer pob cyhoeddiad NICE, ac i fonitro cydymffurfiad trwy archwilio clinigol. Hefyd, mae'r Adran Archwilio Clinigol yn darparu cymorth corfforaethol o ran cynorthwyo cynnydd gyda gweithredu a monitro

llwybrau gofal a mentrau diogelwch cleifion. Mae'r gronfa ddata Archwilio Clinigol yn cofnodi'r holl weithgarwch archwilio.

S11.5 Cadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth ei bod yn datblygu gwaith i wella'r trefniadau goruchwyliaeth glinigol cyfredol gyda'r nod o gynhyrchu polisi goruchwyllo clinigol safonol i ddisodli'r canllawiau penodol i broffesiynau/arbenigeddau sydd ar waith ar hyn o bryd. Sefydlwyd Bwrdd Addysg Meddygol a Deintyddol yn yr Ymddiriedolaeth a Grŵp Addysg ac Arweinyddiaeth Nyrsio i sicrhau arweinyddiaeth ac addysg briodol.

S11.6 Darparwyd tystiolaeth o waith adrodd a monitro gan y Bwrdd o ran materion yn ymwneud â'r gweithlu. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos o'r dystiolaeth a ddarparwyd bod mecanweithiau sicrhau'r Bwrdd sy'n gysylltiedig ag archwilio clinigol a goruchwyllo clinigol yn wan. Rydym yn cytuno felly gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol.

S11.7 Er y darparwyd enghreifftiau o gyfleoedd hyfforddi i aelodau'r staff, nid oedd ymateb yr Ymddiriedolaeth yn nodi sut mae'r gweithlu'n cael ei annog a'i gynorthwyo i ddiweddarau ei sgiliau trwy feysydd fel adolygiadau gan gymheiriaid. Byddem wedi hoffi gweld tystiolaeth hefyd o sut y penderfynir pa eitemau i'w cynnwys yn y rhaglenni archwilio clinigol ac effeithiolrwydd clinigol. Dywedodd aelodau'r staff wrthym eu bod yn ei chael yn anodd iawn cael mynediad at hyfforddiant ac nad oes digon o gyrsiau ar gael ar amseroedd priodol. Rydym yn cytuno felly gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ond byddem yn nodi bod angen gwneud rhagor o waith i gynorthwyo aelodau'r staff ac i ddarparu gwybodaeth i gleifion.

### **Safon 12**

*Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:*

- a. *yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac*
- b. *yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl gyrrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.*

S12.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S12.2 Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn dau adroddiad y flwyddyn gan y Grŵp Llywio Cydraddoldeb a chyflwynir adroddiadau rheolaidd ar agweddau ar y strategaethau cydraddoldeb corfforaethol i'r Pwyllgorau Adnoddau Dynol, Rheoli Risg, Llywodraethu Clinigol a Safonau Clinigol a Phrofiad y Claf.

S12.3 Mae gan yr Ymddiriedolaeth swydd uwch reoli sefydledig, sy'n benodol ar gyfer cynorthwyo gwaith mewn partneriaeth, ac sy'n atebol i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Gwasanaethau. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar yr agenda partneriaeth i Bwyllgor Cynllunio Strategol yr Ymddiriedolaeth. Sefydlwyd Tîm Gwella Gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth i wella gofal i gleifion trwy weithio'n wahanol. Rhan o'i swyddogaeth yw cynorthwyo gyda'r gwaith o ailgynllunio gofal yn seiliedig ar arferion gorau a chydgyssylltu gofal ymhlith gwasanaethau trwy gynnig cymorth cyffredinol ac arbenigol i Adrannau, Cyfarwyddiaethau a/neu Grwpiau Gwasanaeth lle na ellir darparu prosiect newid gyda'r adnoddau rheoli sydd ar gael, neu fod angen defnyddio methodoleg fwy arbenigol.

S12.4 Cefnogir y gwaith o ddatblygu llwybrau gofal gan Gydgyssylltydd Llwybrau Gofal yr Ymddiriedolaeth sy'n sicrhau y datblygir y diwylliant llywodraethu clinigol gan ganolbwyntio ar welliant parhaus a gwersi a ddysgwyd i sicrhau bod y llwybrau'n gwella canlyniadau a phrofiadau cleifion, a gellir dangos hyn trwy ganlyniadau mesuradwy. Mae'r Cydgysylltydd Llwybrau Gofal hefyd yn hwyluso timau clinigol i ddatblygu, sefydlu a gwerthuso Llwybrau Gofal Integredig. Mae gweithgarwch Llwybrau Gofal yn cael ei fonitro'n flynyddol drwy'r Pwyllgor Safonau Clinigol a Phrofiad y Claf. Mae safle mewnwyd yr Ymddiriedolaeth yn darparu trosolwg o lwybrau gofal ac mae hefyd yn cael ei ddatblygu fel pecyn cymorth i ddatblygu llwybrau gofal. Mae'r safle mewnwyd yn cynnwys llyfrgell o'r holl lwybrau gofal a ddefnyddir ledled yr Ymddiriedolaeth.

S12.5 Mae gan yr Ymddiriedolaeth 36 o lwybrau gofal sydd wedi'u sefydlu'n llawn ac mae 13 arall wedi cyrraedd y cyfnod peilot neu wrthi'n cael eu datblygu. Fodd

bynag, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i ddangos gofal di-dor ledled yr holl sefydliadau, a'r ffordd yr ystyrir anghenion a dewisiadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol cleifion yn wan.

S12.6 Darparwyd enghreifftiau da i ddangos y budd y mae cleifion yn ei gael o ganlyniad i lwybrau gofal. Roeddent yn cynnwys manylion gwaith monitro, gwerthuso a gwelliannau. Hefyd, darparwyd enghreifftiau o newidiadau a wnaed o ganlyniad i sefydlu cynllun grantiau bach Hanfodion Gofal. Roeddent yn cynnwys.

- ***Tîm Cof: Llestri ar gyfer bwyta ac yfed ar ward Gofal Parhaus MHSOP, Dewi Sant*** - Fe wnaeth grant gofal hanfodion Gofal alluogi pedwar math o gwpan sy'n cynorthwyo yfed yn fwy diogel i gael eu prynu, cwpanau sy'n galluogi meddyginiaethau hylif i gael eu hyfed yn fwy diogel a phlatiau tsieni ag ymylon uchel i annog pobl i'w bwydo eu hunain.
- ***Addysg Bwyd, Adain y Gorllewin*** - Darparwyd grant Hanfodion Gofal i'r adran Therapi Galwedigaethol Adain y Gorllewin i ehangu'r rhaglen addysg a ddarperir i gleifion yn seiliedig ar weithgareddau fel clybiau brecwast a chinio a grwpiau coginio. Prynwyd pecynnau dyblygu bwyd ac maent wedi cael eu defnyddio ar Adain y Gorllewin yn ystod y saith mis diwethaf. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan gleifion sy'n cymryd rhan yn y sesiynau hyn, o ran eu mwynhad o'r sesiynau, eu mewnbwn yn y grwpiau ac, yn bwysicaf oll, yr hyder cynyddol y maent yn ei deimlo yn y sesiynau un-i-un, ac wrth baratoi i fynd adref.
- ***Trawma ac Orthopedig, Cleifion ac Anafiadau Asgwrn Cefn*** - Mae cleifion ag anafiadau asgwrn cefn yn aml yn treulio amser sylweddol yn gorffwyo'n wastad ar eu gwelyau. Un o effeithio gorwedd fel hyn, yn aml am wythnosau, yw lleihad i'r hyn y gellir ei weld. Roedd y wardiau trawma'n llwyddiannus yn eu cais i brynu sbectolau prism sy'n cynyddu'n sylweddol yr hyn y gall cleifion o'r fath ei weld. Mae'r adborth gan gleifion sydd wedi bod yn defnyddio'r sbectolau prism wedi bod yn rhagorol, gan wella profiad y cleifion yn sylweddol yn ystod eu cyfnod yn gorffwyo'n wastad ar eu gwelyau.

S12.5 Rydym yn ystyried mai **Ymarferol** yw'r Ymddiriedolaeth ar bob lefel ar gyfer y safon hon.

### **Safon 13**

*Bydd gan gyrrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.*

S13.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S13.2 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod strwythurau, strategaethau a pholisiau wedi'u sefydlu i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu defnyddio'n gyson. Mae'r rhain yn cynnwys.

- Gofalu bod llywodraethu ymchwil yn rhan annatod o'r agenda Llywodraethu Clinigol; gan ei restru fel un o'r chwe elfen lywodraethu yn Fframwaith Llywodraethu'r Ymddiriedolaeth.
- Sefydlu Strategaeth Ymchwil bum mlynedd.
- Cynllun Gweithredu Gwaith Llywodraethu Ymchwil.
- Datblygu systemau a gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfiaid â Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004 ac yn gweithio tuag at gyflwyno Gweithdrefnau Gweithredu Safonol i gydymffurfio â gofynion ymchwil Deddf Meinweoedd Dynol 2004.
- Sefydlu Pwyllgor Llywodraethu Ymchwil sy'n adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol trwy ddau adroddiad y flwyddyn a chofnodion bob chwarter ar hyn o bryd. Mae hyn yn destun adolygiad. Cadeirir y pwyllgor gan Gyfarwyddwr anweithredol, a chynrychiolir Prifysgol Caerdydd, gan adlewyrchu'r angen i gynnwys prif bartner academaidd yr Ymddiriedolaeth mewn materion llywodraethu.
- Datblygu Polisi Llywodraethu Ymchwil (sydd heb ei gadarnhau gan y Bwrdd eto).
- Cyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu sy'n aelod o'r Bwrdd.
- Arweinwyr Ymchwil a Datblygu yn y Cyfarwyddiaethau.

- Mae Adroddiad Llywodraethu Ymchwil blynyddol yn cael ei lunio gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu'r Ymddiriedolaeth ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am gydymffurfiaid â dangosyddion Llywodraethu Ymchwil, crynodeb o gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu Llywodraethu Ymchwil, llwyddiannau allweddol a chymau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Cyflwynir Adroddiad Ymchwil a Datblygu Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth hefyd, ynghyd â chrynodeb gweithredol. Mae'r adroddiad yn darparu tablau ariannol manwl, gwybodaeth am effeithiau ac allbynnau, ffactorau sydd wedi dylanwadu ar llwyddiannau, trosolwg o'r trefniadau rheoli a llywodraethu ymchwil sydd ar waith, adlewyrchiad ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth ym maes Ymchwil a Datblygu, crynodeb o'r cynnydd a wnaed ac anawsterau a wynebwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

S13.3 Mae'r Ymddiriedolaeth, trwy Gydbwyllgor Adolygu Cymheiriaid a Risg yr Ymddiriedolaeth/y Brifysgol, sy'n cynnwys aseswr allanol annibynnol a chynrychiolaeth leyg, yn adolygu ansawdd gwyddonol, cost-effeithiolrwydd a risg pob cynnig ymchwil ar ran yr Ymddiriedolaeth a Phrifysgol Caerdydd. Hefyd, mae'n gwneud penderfyniadau am ofynion nawdd a monitro ar gyfer treialon clinigol. Mae pob cymeradwyaeth gan y Pwyllgor hwn yn amodol ar gymeradwyaeth briodol gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil ac awdurdodaeth gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. Ymdrinnir â chydymffurfiaid â rheolau diogelu data, cyfrinachedd gwybodaeth bersonol, yr angen am gontractau ymchwil anrhydeddus, materion yn ymwneud ag oedolion a phlant Agored i Niwed, ystyriaeth lechyd a Diogelwch a materion caniatâd drwy'r broses adolygu hon. Gan fod gwaith Asesu sy'n Benodol i Safleoedd ar fin cael ei drosglwyddo o Bwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG i'r Ymddiriedolaethau, mae'n debygol mai'r Pwyllgor hwn fydd yn mynd i'r afael â'r cwestiwn a yw'r sgiliau a'r profiad priodol gan aelodau'r staff i gyflawni eu swyddogaethau yn yr astudiaeth ymchwil mewn sawl achos.

S13.4 Darperir hyfforddiant Llywodraethu Ymchwil a datblygwyd cyfres o Weithdrefnau Gweithredu Safonol i gynorthwyo i lywio aelodau'r staff.

S13.5 Darparwyd tystiolaeth o strwythurau a phrosesau Llywodraethu Ymchwil cadarn. Mae'r dystiolaeth hefyd yn cadarnhau bod cynnydd yn cael ei fonitro'n gadarn ac y cyflawnwyd gwelliannau parhaus. Mae systemau cyfathrebu a threfniadau hyfforddi boddhaol wedi'u sefydlu. Rydym yn cytuno felly bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon, ac mae rhai elfennau'n symud tuag at lefel aeddfedrwydd Arweiniol.

### 4.3 Llywodraethu Gofal Iechyd

#### **Safon 14**

*Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch a iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.*

S14.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S14.2 Mae'r Cyfarwyddwr Rheoli Corfforaethol wedi dirprwyo cyfrifoldeb am reoli iechyd a diogelwch yn yr Ymddiriedolaeth ac amrywiaeth o bolisiâu sy'n darparu cyfarwyddyd a chynghor ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r staff a'r cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyd-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Rheolwyr a Staff sy'n cyfarfod bob dau fis.
- Polisi a Fframwaith Strategol Rheoli Risg.
- Polisi Iechyd a Diogelwch.
- Polisi Codi a Chario.
- Polisi a Gweithdrefn Diogelwch Personol.
- Gweithdrefn Hysbysu ac Ymchwilio i Ddigwyddiadau.
- Gweithdrefn Cymorth Cyntaf yn y Gweithle.
- Gweithdrefn Offer Sgrin Arddangos.
- Gweithdrefn Asesu Risg.

- Gweithdrefn Adrodd ac Ymchwilio i Ddigwyddiadau.
- Rhaglen Hyfforddi Gorfodol.

S14.3 Cyflwynir adroddiadau rheolaidd yn ymwneud â'r Gofrestr Risg a'r Fframwaith Sicrhau i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth drwy'r Pwyllgor Rheoli Risg. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol cryno sy'n hysbysu am weithgarwch yn ystod y flwyddyn ac ystadegau ar ddigwyddiadau ac adroddiadau ar ddigwyddiadau lle bu trafodaethau gyda'r asiantaethau gorfodi e.e. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Asiantaeth yr Amgylchedd.

S14.4 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu trefniadau i sicrhau bod aelodau'r staff yn ymwybodol o'r gofynion deddfwriaethol a'r arferion gorau sy'n ymwneud â rheoli risg, a chynhelir sesiynau ymwybyddiaeth risg a diwrnodau hyfforddiant. Mae gan bob Grŵp Gwasanaeth ei Bwyllgor Iechyd a Diogelwch ei hun.

S14.5 Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu rhaglen gwella ansawdd yr Ymddiriedolaeth drwy'r Cyngor Iechyd Cymuned a'r panel Cleifion. Darparwyd nifer o enghreifftiau o welliannau a wnaed o ganlyniad i'r mecanweithiau hyn yn ogystal â materion yn ymwneud â diogelwch cleifion yr aethpwyd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai'r Ymddiriedolaeth feddwl mwy am sut y gallai wella'r broses o gynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

S14.6 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ond rydym o'r farn mai **Datblygol** yw'r asesiad ar lefel Profiad y Defnyddiwr hefyd.

### **Safon 15**

*Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:*

- a. *yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;*
- b. *yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;*
- c. *yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac*
- ch. *yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn*

*gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac **Ymatebol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S15.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod strwythurau a phrosesau wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r safon hon, fel:

- Gweithdrefn Gwyno.
- Canllaw ar gyfer rheoli Achwynwyr Blinderus a Chyson.
- Canllawiau ar gyfer defnyddio taflen “*Your Voice, Your Say*” ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.
- Buddsoddi yn y ddarpariaeth o wasanaethau Cyfieithu Wyneb i Wyneb, Cyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain a gwasanaethau Llinell Iaith.
- Datblygu Canllaw Cyfieithwyr dros dro i aelodau'r staff a raeadrwyd i bob safle a ledled pob maes.
- Darparu sesiynau hyfforddi sylfaenol ar Ymwybyddiaeth o Fyddardod i aelodau'r staff.
- Mabwysiadu gweithdrefn gwyno anffurfiol a ffurflenni Cwynion Llafar.
- Datblygu taflen gwynion “*Mae eich safbwynt chi yn bwysig i ni*”.
- Sefydlu fframwaith ffurfiol ar gyfer rheoli cam cyntaf y weithdrefn gwyno.
- Cyflwyno Pecyn Rheoli Cwynion i aelodau'r staff.

S15.3 Cyhoeddir y weithdrefn gwynion yn lleol yn yr Ymddiriedolaeth a thrwy'r Cynghorau Iechyd Cymuned trwy bosteri a thafenni sydd ar gael ledled holl safleoedd yr Ymddiriedolaeth ac fe'u cyhoeddir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Lle bo angen ac er mwyn darparu gwasanaethau i unigolion yn yr iaith maent yn ei dewis, gellir caffael cyfieithwyr wyneb i wyneb a Chyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain i ddefnyddwyr yn ôl y gofyn.

S15.4 Mae Rheolwr Cwynion a thîm bach o gydgysylltwyr yn cynorthwyo gyda'r gwaith o hwyluso'r broses gwynion ac yn gweithio mewn partneriaeth agos â

Grwpiau Gwasanaeth, Cyfarwyddiaethau, Timau Clinigol, Defnyddwyr Gwasanaeth, y Cyhoedd ac asiantaethau allanol. Mae arolwg cipolwg o brofiad y defnyddiwr o'r broses gwynion wrthi'n cael ei chyflawni.

S15.5 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr roi adborth ar eu safbwyntiau a'u dewisiadau mewn ffyrdd eraill, fel:

- Cynllun Blwch Awgrymiadau
- Arolygon Canlyniadau Gwella Iechyd Cleifion
- Arolygon Bodlonrwydd Cleifion ar gyfer gwasanaethau ward, adran neu arbenigol penodol

S15.6 Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn monitro'r broses o ymdrin â chwynion trwy amrywiaeth o ddulliau fel y Cerdyn Sgorio Cytbwys; Pwyllgorau Llywodraethu Clinigol y Grwpiau Gwasanaeth. Cyflwynir Adroddiad Rheoli Cwynion i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth bob chwarter fel rhan o adroddiad y Cyfarwyddwr Nyrsio, ac o dro i dro, bydd y Prif Weithredwr a swyddogion gweithredol eraill yn derbyn briffiau ar gwynion unigol sydd yn y system. Ar hyn o bryd, dim ond cwynion sy'n ymwneud â hil, anabledd, crefydd a chred, oedran, rhyw a rhywioldeb mae'r Ymddiriedolaeth yn eu monitro, yn unol â gofynion trefniadau adrodd diwedd blwyddyn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

15.7 Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu enghreifftiau niferus o welliannau a wnaed o ganlyniad i gwynion gan grŵp gwasanaeth yn ystod y 12 i 18 mis diwethaf, gan ddangos yn eglur bod cwynion yn cael eu trin o ddifrif ac y cymerir camau yn eu sgil.

S15.8 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ond rydym hefyd o'r farn mai **Datblygol** yw'r asesiad ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

### **Safon 16**

*Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:*

- a. *i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt;*

- b. *i roi gwybod am ddigwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. *dangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau;*
- ch. *sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.*

S16.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S16.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod strwythurau a phrosesau wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r safon hon, fel:

- Gweithdrefn Hysbysu ac Ymchwilio i Ddigwyddiadau; mae'r weithdrefn hon yn nodi gofynion hysbysu gorfodol.
- Pwyllgor Rheoli Risg.
- Polisi ar gyfer Rheoli Hysbysiadau Diogelwch.
- Darparu Hyfforddiant Dadansoddi'r Achos Craidd (mae 172 o aelodau'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn).
- Mae'r Pwyllgor Safonau Clinigol a Phrofiad y Claf yn monitro themâu digwyddiadau.
- Cymryd rhan ym Menter Cleifion Mwy Diogel y Sefydliad Iechyd a'r Sefydliad Gwelliannau Iechyd.
- Defnyddio Dull Sbarduno Digwyddiadau Andwyol IHI.
- Mabwysiadu System Rheoli Risg DATIX.
- Cyfrifoldeb am roi gwybod am Ddigwyddiadau Iechyd a Diogelwch i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i ddirprwyo i Gynghorwyr Iechyd a Diogelwch rhoi gwybod am ddigwyddiadau i'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion i hwyluswyr Llywodraethu Corfforaethol.
- Neilltuo 'swyddogion cyswllt' ar gyfer yr holl rybuddion a chynghor gan yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith. Nodir arweinwyr ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth a Rheolwr Cyffredinol y Grŵp Gwasanaeth penodol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau y'u rhoddir ar waith. Y swyddogion cyswllt sy'n gyfrifol

am gyflawni archwiliadau i sicrhau cydymffurfiad â'r polisi a'r hysbysiad diogelwch maent yn eu dosbarthu.

S16.3. Anfonir adroddiadau crynodeb misol o ddigwyddiadau'r Gyfarwyddiaeth i dîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth eu dosbarthu i aelodau'r staff yn y maes. Mae'r adroddiad hwn yn adroddiad disgrifiadol llawn sy'n rhoi manylion digwyddiadau'n ymwneud â'r gyfarwyddiaeth. Cyflwynir adroddiad yn cynnwys crynodeb o ddigwyddiadau andwyol difrifol, ac yn rhoi manylion y 10 is-gategori uchaf a adroddwyd yn y maes yn y Pwyllgor Grŵp Gwasanaeth a'r Pwyllgor Safonau Clinigol a Phrofiad y Claf. Hefyd, cynhyrchir cylchlythyrau rheolaidd gan yr Adran Cymorth Llywodraethu Clinigol sy'n amlinellu materion allweddol ac fe'u dosbarthir yn eang ledled yr Ymddiriedolaeth yn electronig ac ar bapur. Dosbarthir cylchlythyrau'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion hefyd.

S16.4 Darparodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth dda o enghreifftiau o welliannau i'r gwasanaeth yn dilyn y gwaith o ddadansoddi data digwyddiadau ac o sut mae wedi ymateb i ddigwyddiadau diogelwch yn ymwneud â chleifion, ond mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau y rhoddir adborth i gleifion am newidiadau a wnaed o ganlyniad i ddigwyddiadau gan mai Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth yw'r unig fecanwaith ac eithrio adborth unigol i gleifion a pherthnasau ar hyn o bryd.

S16.5 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel.

### **Safon 17**

*Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrff eraill.*

S17.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S17.2 Mae strategaeth a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth sy'n ymwneud ag amddiffyn plant wedi'u datblygu'n dda ac yn cael eu rhoi ar waith ledled yr Ymddiriedolaeth. Maent yn cynnwys:

- Mabwysiadu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ym mhob rhan o'r Ymddiriedolaeth.
- Sefydlu Grŵp Llywio Diogelu Plant sy'n derbyn adroddiadau'n ymwneud ag amddiffyn plant a gweithdrefnau sy'n deillio o Fyrddau Lleol Diogelu Plant.
- Cynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro.
- Nodi arweinwyr Amddiffyn Plant - Cyfarwyddwr Nyrsio, Meddyg a Enwir, Nyrs a Bydwraig ar gyfer Amddiffyn Plant a Phennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl i Oedolion.
- Mabwysiadu Strategaeth Amddiffyn Plant sy'n nodi strwythur clir ar gyfer diogelu plant.
- Sefydlu Grŵp Llywio Diogelu Plant sy'n nodi polisiau amddiffyn plant ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, yn cynnwys argymhellion o adolygiadau o achosion difrifol.
- Sefydlu cynllun gwaith Diogelu Plant.
- Mabwysiadu Strategaeth Hyfforddiant Amddiffyn Plant.
- Sefydlu Grŵp Hyfforddiant Amddiffyn Plant sy'n cyfarfod bob chwarter.
- Mabwysiadu Polisi Recriwtio i gynorthwyo'r broses o ddewis aelodau staff i weithio gyda phlant ac oedolion Agored i Niwed.
- Mabwysiadu Polisi ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed yn yr Ymddiriedolaeth yn dilyn archwiliad.
- Datblygu Tîm a Grŵp Gweithredol Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.
- Strwythur reoli eglur ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.
- Aelodaeth o Bwyllgorau Ardal Amddiffyn Oedolion Caerdydd a'r Fro a Phwyllgor Amddiffyn Oedolion De Cymru.
- Nodi arweinwyr Gweithredol ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.
- Datblygu a sefydlu Strategaeth Hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.

- Penodi Rheolwyr Arweiniol Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.

S17.4 Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad blynyddol ar Amddiffyn Plant sy'n cynnwys tystiolaeth o weithio rhyngasiantaeth. Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter rhwng y gweithwyr proffesiynol a enwyd a Chyfarwyddwr Nyrsio'r Ymddiriedolaeth. Llofnodir argymhellion Adolygiadau o Achosion Difrifol yng Ngrŵp Llywio Diogelu Plant yr Ymddiriedolaeth. Cyflwynir adroddiad Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed blynyddol i'r Bwrdd hefyd.

S17.5 Darparwyd tystiolaeth bod rhaglenni hyfforddi ar waith, ond fe wnaethom ganfod o'r archwiliadau o hyfforddiant i ni eu cyflawni bod rhai aelodau'r staff ar ddyletswydd yn yr ardaloedd i ni ymweld â nhw nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac ychydig iawn o aelodau'r staff oedd wedi derbyn hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed. Paratoir adroddiad hyfforddiant amddiffyn plant a Strategaeth Hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed blynyddol sy'n rhoi manylion y math o hyfforddiant, nifer yr aelodau staff sydd wedi mynychu ac argymhellion ar gyfer hyfforddiant y flwyddyn ganlynol.

S17.6 Ni ddarparodd yr Ymddiriedolaeth enghreifftiau o gamau a gymerwyd yn sgil digwyddiadau'n ymwneud ag amddiffyn plant. Ni ddarparodd wybodaeth ar nifer y digwyddiadau o'r fath chwaith. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran archwiliadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer aelodau staff newydd, yn unol â'r canllawiau ac fe wnaethom gadarnhau y cynhaliwyd archwiliadau o'r fath ar bob aelod o staff sy'n gweithio ar wardiau gofal henoed a'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Prifysgol Cymru oedd ar ddyletswydd ar ddiwrnod ein hymweliad.

S17.7 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer y Safon hon, ac rydym o'r farn bod y gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a sefydlwyd yn haeddu canmoliaeth.

## **Safon 18**

*Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymateb lle bo'n ofynnol.*

S18.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S18.2 Mae'r Prif Weithredwr wedi dirprwyo cyfrifoldeb am baratoi ar gyfer ymateb i ddigwyddiad neu sefyllfa frys (fel y diffinnir gan y Ddeddf Cyfyngau Sifil) i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Y Cyfarwyddwr Rheoli Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol. Fe'i cynorthwyr yn y swyddogaeth hon gan y Cyfarwyddwr Meddygol sy'n arwain proses yr Ymddiriedolaeth o ymateb i ddigwyddiad a'r Cyfarwyddwr Datblygu sy'n arwain gwaith cynllunio dilyniant cyfwng/busnes.

S18.3 Sefydlwyd Grŵp Cynllunio Brys, a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Meddygol. Mae'r Grŵp hwn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Rheoli Risg. Mae Grŵp Dilyniant Busnes wedi'i sefydlu hefyd, sy'n cynghori ar reoli ymatebion i Bandemig Ffliw; digwyddiadau Cemegol, Biolegol, Niwclear neu Radiolegol a gofynion Seicogymdeithasol digwyddiad.

S18.4 Ym mis Hydref 2006 cymeradwywyd y Cynllun Digwyddiad Mawr a chymeradwyodd y Pwyllgor Rheoli Risg ei Weithdrefn Ymateb i bandemig Ffliw ledled yr Ymddiriedolaeth. Y Cyfarwyddwr Atal a Rheoli Heintiau sydd â chyfrifoldeb strategol am unrhyw gamau o fewn yr Ymddiriedolaeth ar ôl i achos posibl o glefyd heintus gael ei nodi yn yr Ymddiriedolaeth. Rheolir achosion o'r fath yn unol â Chynllun Achos o Ddigwyddiadau Heintus (2002). Mae'r Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau'n derbyn adroddiad yn dilyn pob achos.

S18.5 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi yn ei ymateb y cydnabuwyd Cynllunio Brys/Cyfwng fel risg sylweddol i'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2006-2007, ac yn ei hymateb i hyn, cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth benodiad Swyddog Cynllunio Brys/Cyfwng llawn amser a chyllideb nad yw ar gyfer staff. Dechreuodd y Swyddog Cynllunio Brys/Cyfwng ei swydd ar 1 Ebrill 2007.

S18.6 Er ein bod yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth wedi darparu tystiolaeth o waith monitro a gwella gan y Bwrdd trwy ddiwygio ei Chynllun Digwyddiadau Mawr a phenodi Swyddog Cynllunio Brys/Cyfwng ac felly rydym o'r farn ei bod yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol.

### **Safon 19**

*Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:*

- a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;*
- b. bod dyfeisiadau meddygol aml dro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli; a*
- ch. bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.*

S19.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S19.2 Dangosodd yr Ymddiriedolaeth bod llinellau atebolrwydd, polisiau a gweithdrefnau a phrosesau adrodd eglur wedi'u sefydlu ar gyfer caffael, rheoli, cynnal a chadw a dadhalogi dyfeisiadau meddygol. Roedd hefyd yn gallu dangos a chynnig tystiolaeth o welliant parhaus drwy'r broses archwilio.

S19.3 Mae'r Bwrdd hefyd wedi datblygu strategaethau a sefydlwyd i gydymffurfio â chanllawiau a gofynion deddfwriaethol rheoli meddyginiaethau a rheoli gwastraff.

S19.4 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod wedi sefydlu systemau priodol ar gyfer olrhain offer a dyfeisiadau. Dangosodd yr Ymddiriedolaeth hefyd bod systemau wedi'u sefydlu i sicrhau bod strategaethau a pholisiau y cytunwyd arnynt ar gyfer rheoli meddyginiaethau a thrin a chludo gwastraff yn cael eu sefydlu'n effeithiol.

S19.5 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos y rhoddir gwybod am ddigwyddiadau'n ymwneud â defnyddio dyfeisiadau meddygol, gwendidau mewn gweithdrefnau dadhalogi, a defnyddio meddyginiaethau a chael gwared ar wastraff a'u bod yn cael eu hymchwilio a'u datrys. Rhoddwyd manylion y camau a gymerwyd a'r gwersi a ddysgwyd hefyd.

S19.6 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel.

### **Safon 20**

*Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.*

S20.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S20.2 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu a sefydlu strategaethau a pholisïau adnoddau dynol priodol. Mae systemau monitro salwch, trosiant a chydymffurfiad â KSF wedi'u sefydlu a hysbysir y dangosyddion hyn i Bwyllgor Adnoddau Dynol Bwrdd yr Ymddiriedolaeth fel rhan o Gerdyn Sgorio Cytbwys ar gyfer Adnoddau Dynol. Adroddir ar ddangosyddion yn cynnwys gwariant ar Salwch, Nyrsys Wrth Gefn a Nyrsys Asiantaeth yn rheolaidd i Fwrdd llawn yr Ymddiriedolaeth fel rhan o adroddiadau'r Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol a Chyllid. Anogir aelodau staff Adnoddau Dynol yr Ymddiriedolaeth i astudio i fod yn aelodau o'r Sefydliad Personél a Datblygiad Siartredig.

S20.3. Mae gan yr Ymddiriedolaeth safle mewnwyd Moderneiddio sydd â'r nod o annog aelodau'r staff i wella gwasanaethau. Mae gan y safle dudalen "Camau Hawdd" sy'n ganllaw cam wrth gam i wella gwasanaethau gyda chysylltiadau i gymorth a chanllawiau priodol. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal 'Digwyddiadau Arloesi'. Roedd y diwethaf a gynhaliwyd yn 2006 yn cynnwys dros 50 o gyflwyniadau poster gan aelodau staff ledled yr Ymddiriedolaeth yn dangos amrywiaeth o welliannau i'r gwasanaeth.

S20.4 Anogir bod aelodau'r staff yn cael eu cynnwys hefyd trwy weithio mewn partneriaeth gydag undebau llafur a sefydliadau staff. Hyfforddwyd Cynrychiolwyr Undebau Llafur ar y cyd â Rheolwyr Adnoddau Dynol i ddarparu'r dull moderneiddio "Pecyn Cymorth ar gyfer Newid" o adolygu modelau staffio ar gyfer darparu gwasanaethau. Darparodd yr Ymddiriedolaeth fanylion nifer o swyddi newydd a sefydlwyd yn ystod y deuddeng mis diwethaf ond ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o welliannau a wnaed i wasanaethau o ganlyniad i fentrau staff.

S20.5 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan yn arolwg Barn Staff blynyddol Cymru sy'n darparu gwybodaeth i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth am nifer o ddangosyddion, yn cynnwys safbwyntiau aelodau'r staff ar: Gydbwysedd Gwaith Bywyd; Gwerthuso, Dysgu a Datblygu; Gweithio fel Tîm; Bodlonrwydd mewn Swydd a llawer o feysydd eraill. Mae adran Archwilio Mewnol yr Ymddiriedolaeth hefyd yn cyflawni rhaglen flynyddol o archwiliadau adrannol sy'n cynnwys prosesau Adnoddau Dynol.

S20.6 Rydym o'r farn mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar bob lefel ar gyfer y safon hon oherwydd diffyg tystiolaeth o fentrau staff ac o fecanweithiau i sicrhau'r Bwrdd bod aelodau'r staff wedi'u hymrymuso i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

## **Safon 21**

*Mae cyrff gofal iechyd:*

- a. *yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;*
- b. *yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac*
- c. *yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S21.2 Darparodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth bod y Bwrdd yn derbyn adroddiadau ac yn monitro effeithiolrwydd y systemau a sefydlwyd i sicrhau y cynhelir archwiliadau cyflogaeth, cymwysterau a chofrestru ar gyfer pob aelod o'r

staff a chontractwyr. Mae polisïau recriwtio a dethol amrywiol wedi'u sefydlu, yn cynnwys polisïau ar archwilio amrywiaeth o gofrestriadau proffesiynol. Mae polisi recriwtio ar wahân wedi'i sefydlu i ddewis aelodau staff i weithio gyda phlant ac oedolion Agored i Niwed yn ogystal â Pholisi Datgelu Cefndir Troseddol a Pholisi ar gyfer Recriwtio Pobl a Chofnod Troseddol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriad at weithdrefnau ar gyfer aelodau staff dros dro neu gontractwyr.

S21.3 Mae Polisi Cydraddoldeb a Chynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb ar gyfer Hil, Rhyw ac Anabledd yn darparu ymroddiad corfforaethol i sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu yn erbyn grwpiau lleiafrifol. Mae adran Recriwtio'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda *Reemploy Interwork* i annog ceisiadau gan bobl anabl, ac yn monitro canlyniadau holl gleientiaid *Reemploy*.

S21.4 Mae'n rhaid i bob rheolwr staff proffesiynol cofrestredig sicrhau bod trefniadau wedi'u sefydlu ar gyfer adolygiadau systematig a rheolaidd er mwyn sicrhau bod gofrestriadau'n cael eu hadnewyddu ac yn cael eu harchwilio ar gyfer yr holl staff proffesiynol y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'n ofynnol i Reolwyr Llinell â chyfrifoldeb dirprwyedig annog a chefnogi aelodau'r staff yn ymarferol i ddarparu tystiolaeth o'u cofrestriadau. Mae pob Cyfarwyddiaeth yn neilltuo rheolwr(wyr) priodol i fod yn gyfrifol am sicrhau y cyflawnir y broses ddilynol ar gyfer archwilio gofrestriadau statudol ac y cynhelir cofnod canolog o gofrestriadau statudol, yn cynnwys rhifau cofrestru a dyddiadau adnewyddu.

S21.5 Cyflawnir gwaith monitro cymysgedd ethnig y boblogaeth drwy'r Ffurflen Monitro'r Gweithlu, y gofynnir i bawb sy'n cychwyn ei chwblhau. Cyflawnir gwaith monitro ymgeiswyr anabl yn yr Adran Recriwtio. Fodd bynnag, darparodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth ei bod wedi cymryd rhan yn Arolwg Agwedd Staff GIG Cymru yn unig i ddangos ffyrdd o dderbyn adborth am grwpiau lleiafrifol.

S21.6 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu i ymdrin ag unrhyw fethiannau i gydymffurfio â safonau ymddygiad proffesiynol neu ofynion cofrestru. Dangosodd yr Ymddiriedolaeth hefyd y dysgwyd gwersi yn dilyn achosion lle bu methiannau i gydymffurfio â safonau ymddygiad proffesiynol.

S21.7 Rydym yn ystyried mai **Datblygol** yw'r Ymddiriedolaeth ar bob lefel ar gyfer y safon hon. Ychydig iawn o dystiolaeth o waith monitro gan y Bwrdd a ddarparwyd, ac ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth bod gweithdrefnau wedi'u sefydlu i sicrhau y cynhelir archwiliadau ar gyfer staff contractwyr. Hefyd, mae'n ymddangos nad oes unrhyw fecanweithiau canolog wedi'u sefydlu i sicrhau bod cofrestriadau proffesiynol yn cael eu diweddarau; dibynnir ar reolwyr llinell i sicrhau bod systemau priodol wedi'u sefydlu.

## **Safon 22**

*Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff*

- a. *yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- b. *yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac*
- c. *yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ac rydym yn cytuno gyda'r asesiad hwn.

S22.2 Mae polisïau a gweithdrefnau ymsefydlu wedi'u sefydlu. Cynhelir dadansoddiad o anghenion hyfforddi blynyddol ac mae cydymffurfiad â hyn yn cael ei fonitro a'i adrodd i'r Bwrdd.

S22.3 Roedd ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r cwestiwn '*Sut y sicrheir y Bwrdd bod staff yn gymwys ac yn parhau i fod yn gymwys i gyflawni'r swyddogaethau y'u cyflogwyd i'w cyflawni?*' yn wan iawn gan gyfeirio ar bresenoldeb ym mhroses Ymsefydlu Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn unig.

S22.4 Nododd yr Ymddiriedolaeth drefniadau ar gyfer gwerthuso a rheoli perfformiad a chadarnhaodd bod gwybodaeth am gyrsiau hyfforddi a gweithgareddau datblygu ar gael ar y Fewnrwyd ac mewn adolygiadau PDP. Fodd bynnag, efallai nad oes gan holl aelodau'r staff fynediad at y Fewnrwyd ac o ystyried bod yr Ymddiriedolaeth wedi amlygu diffyg gwerthusiadau, efallai nad ydynt wedi cael adolygiad PDP

chwaith. Prin oedd y wybodaeth am waith gwerthuso hyfforddiant a gweithgareddau datblygu a ddarparwyd. Cadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth y byddai mecanweithiau monitro'n cael eu sefydlu i fesur cydymffurfiad gyda'r PDP a gyflawnir.

S22.5 Rydym o'r farn bod ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r gyfres o gwestiynau a osodwyd ar gyfer y safon hon yn wan iawn ac mae'n ymddangos nad yw rhai o'r mecanweithiau sicrhau a monitro allweddol wedi'u sefydlu. Dim ond ar lefel aeddfedrwydd **Ymatebol** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon y gallwn gyuno felly.

### **Safon 23**

*Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:*

- a. *brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu safle; a chan*
- b. *raglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S23.2 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu strategaethau, polisiau a gweithdrefnau i gynorthwyo aelodau'r staff pan maent yn nodi angen i godi pryderon am unrhyw agwedd ar ddarpariaeth y gwasanaeth, triniaeth neu waith rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Polisi Chwythu'r Chwiban.
- Mae'r weithdrefn Ymgymeriad Cleifion yn rhoi cymorth ymarferol i aelodau'r staff wrth iddynt ymdrin ag unigolion treisgar neu ymosodol sy'n hŷn na 18 oed.

S23.3 Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth i ddangos sut mae aelodau'r staff yn cael eu cefnogi neu eu hannog i ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn lle'n briodol.

S23.4 Gan ymateb i'r cwestiwn am enghreifftiau o achosion lle mae aelodau'r staff wedi defnyddio prosesau i godi pryderon yn gyfrinachol a heb gyfaddawdu eu sefyllfa, nododd yr Ymddiriedolaeth drefniadau monitro yn hytrach nag enghreifftiau neu nifer achosion. Rydym yn deall bod hyn oherwydd pryderon am sicrhau y cynhelir cyfrinachedd. Byddwn yn sicrhau y darperir cyngor Cyhoeddus i'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cyflwyniad y flwyddyn nesaf.

S23.5 Unwaith eto, rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth wedi darparu ymatebion gwan iawn ac ni allwn ond cadarnhau asesiad **Datblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

#### **Safon 24**

*Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:*

- a. *fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; a*
- b. *sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S24.2 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Lleol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg trwy aelodaeth ymarferol o'r partneriaethau strategol cyfrifol ar lefel Weithredol h.y. Cynghrair Iechyd Caerdydd a Phartneriaeth Bro Morgannwg. Cynrychiolir yr Ymddiriedolaeth yn llawn hefyd ar grwpiau cynllunio partneriaeth a sefydlwyd i gefnogi'r strategaethau. Mae trefniadau tebyg wedi'u sefydlu i gefnogi partneriaethau strategol allweddol eraill, yn cynnwys y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

S24.3 Mae gan yr Ymddiriedolaeth swydd uwch reolwr wedi'i sefydlu yn benodol ar gyfer cefnogi gweithio mewn partneriaeth, sy'n atebol i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Gwasanaethau. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar agenda'r bartneriaeth i Bwyllgor Cynllunio Strategol yr Ymddiriedolaeth.

S24.4 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi datblygu cysylltiadau cryf gyda'r sector gwirfoddol i gefnogi'r broses hon. Tra nad yw gwaith cynllunio'r gweithlu integredig cynhwysfawr gydag asiantaethau allanol wedi'i ddatblygu'n llawn ledled yr Ymddiriedolaeth, darparwyd yr enghreifftiau canlynol o gydweithio yn hyn o beth:

- Mae'r Adran Iechyd Meddwl wedi sefydlu Grwpiau Gweithredol aml-asiantaeth ar y Cyd. Mae gwaith penodol i ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl wedi cynnwys sefydlu'r Timau Triniaeth Gartref i Ddatrys Argyfyngau (Tîm y De - de Caerdydd a dwyrain y Fro; Tîm y Gogledd - gogledd Caerdydd)
- Mae'r fenter "Dechrau'n Deg" ym maes Iechyd Plant yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a sefydliadau Gwirfoddol ac yn cynnwys staff o'r sectorau hyn yn cydweithio gyda staff Iechyd i ddarparu gwasanaethau i blant Agored i Niwed. Mae dau gynllun sy'n cael eu cynllunio ar hyn o bryd.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn arwain y gwaith o ddatblygu'r Tîm Mynediad Iechyd yng Nghaerdydd i ymateb i anghenion ceiswyr lloches yng Nghaerdydd.

S24.5 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ond rydym o'r farn mai dim ond **Ymatebol** yw'r asesiad ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

### **Safon 25**

*Mae cyrff gofal Iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.*

S25.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol, **Datblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S25.2 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu strategaethau a strwythurau priodol i ddarparu systemau gwybodaeth effeithiol, ond hefyd i gyd-fynd â'r rhaglenni gwybodaeth Iechyd cenedlaethol. Maent yn cynnwys:

- Grŵp Llywio'r Strategaeth e-lechyd cyffredin sy'n goruchwyllo'r holl ddatblygiadau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg
- Strategaeth e-lechyd a chynlluniau cysylltiedig
- Gorchymyn y bydd pob system adrannol newydd yn integreiddio â system PMS yr Ymddiriedolaeth.
- Bydd holl gaffaeliadau system gwybodaeth newydd sy'n cynnwys yr Adran Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn sicrhau cydymffurfiad â safonau y cytunwyd arnynt.
- Sefydlu Polisi Diogelwch TG cynhwysfawr
- Adroddiad Misol ar Berfformiad i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn dynodi perfformiad yn erbyn targedau allweddol. Adlewyrchir y rhain gan adroddiadau a gynhrychir ar lefel Grŵp Gwasanaeth.
- Hyfforddiant mewn amrywiaeth eang o systemau gwybodaeth, yn cynnwys hyfforddiant Ymsefydlu; hyfforddiant Diogelwch TG; hyfforddiant systemau; hyfforddiant storfeydd data i gael mynediad at wybodaeth allweddol; hyfforddiant Gloywi; hyfforddiant TG cyffredinol; Hyfforddiant ECDL; hyfforddiant ar-lein;

S25.3 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddyfeisiadau mynediad mewn cydweithrediad â Hysbysu Gofal Iechyd er mwyn sicrhau bod digon o ddyfeisiadau ar gael yn y lleoliadau mwyaf priodol i hwyluso mynediad effeithiol at systemau gwybodaeth. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno mynediad diwifr sylweddol. Mae cymwysiadau a ddefnyddiwyd drwy'r seilwaith hwn sy'n cynorthwyo aelodau'r staff i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn cynnwys y canlynol: systemau PACS; Adrodd Canlyniadau; PMS; Mewnwyd; Porth Clinigol; Storfa Ddata; HOWIS

S25.4 Ni atebwyd y cwestiwn am sicrhau y defnyddir y wybodaeth a gesglir i ddylanwadu ar wasanaethau. Ni ddarparodd yr Ymddiriedolaeth unrhyw dystiolaeth chwaith o'r ffordd mae'n sicrhau bod gan holl aelodau'r staff fynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

S25.5 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol, **Datblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 26**

*Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol yn eu lle i sicrhau:*

- a. *bod y sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddarar'r wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; a*
- b. *bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S26.2 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bolisi, Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Cofnodion. Datblygwyd canllawiau cysylltiedig hefyd. Mae Pwyllgor Cofnodion Iechyd yr Ymddiriedolaeth yn darparu fforwm ar gyfer cydgysylltu'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli cofnodion.

S26.3 Derbyniodd Adran Cofnodion Iechyd yr Ymddiriedolaeth achrediad CASPE ym mis Mawrth 2006.

S26.4 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Raglen Ymsefydlu Corfforaethol amlddisgyblaeth a fynychir gan holl aelodau staff newydd yr Ymddiriedolaeth. Mae gwybodaeth am Ryddid Gwybodaeth a Rheoli Cofnodion wedi'i chynnwys yn y rhaglen hon. Mae pecyn e-ddysgu newydd yn cynnwys modiwl sy'n ymwneud yn benodol â Rheoli Cofnodion a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Amlygwyd pwysigrwydd Rhyddid Gwybodaeth a Rheoli Cofnodion yng nghylchlythyr *Focus* yr Ymddiriedolaeth. Yn yr erthygl hon, cyfeiriwyd at y wefan Rhyddid Gwybodaeth a Pholisi, Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Cofnodion yr Ymddiriedolaeth.

S26.5 Mae'r Pwyllgor Cofnodion Iechyd wedi datblygu '*A complete guide for the keeping of health records for clinicians*'. Mae'r ddogfen ar gael i staff meddygol yn bennaf, yn cynnwys israddedigion, ond mae'r egwyddorion allweddol yn berthnasol i bob grŵp clinigol. Mae'r canllaw ar gael ar y fewnwyd ac fe'i dosbarthwyd ledled y

Coleg Meddygaeth, mewn rhaglenni ymsefydlu ac o fewn y strwythur rheoli cyffredinol.

S26.6 Yn unol â chynllun archwilio mewnol 2006-2007, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o Fframwaith Sicrhau'r Ymddiriedolaeth o ran y cofnodion rheoli. Amcan yr archwiliad oedd gwerthuso a phenderfynu ar addasrwydd y systemau sydd ar waith yn yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli cofnodion ac i ddarparu sicrwydd rhesymol i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth bod risgiau sy'n berthnasol i fodloni amcanion system yn cael eu rheoli'n briodol.

S26.7 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

### **Safon 27**

*Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da wedi eu sefydlu sydd:*

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; ac*
- d. yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S27.2 Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn nodi ei strwythurau llywodraethu a'i threfniadau rheoli risg a rheoli ariannol. Mae cyflwyniad yr Ymddiriedolaeth yn llawn tystiolaeth bod materion yn cael eu hadrodd i bwyllgorau ac is-bwyllgorau amrywiol y Bwrdd, ond nid yw'n eglur i ba lefel a pha mor fanwl yw'r wybodaeth sy'n mynd i'r Bwrdd. Mae'n ymddangos bod lefel craffu a gwaith Monitro'r Bwrdd yn gyfyngedig, yn enwedig o ran materion ansawdd clinigol, er bod tystiolaeth drwy'r cyflwyniad o ryw fath o waith gwerthuso/adolygu'n cael ei gynnal ar lefel is. Fodd bynnag, ni all y prosesau hyn ddisodli'r Bwrdd. Yn gyffredinol, roedd cyfeiriadau at y Bwrdd yn ymwneud â chymeradwyo strategaethau a pholisiau. Byddem wedi hoffi gweld mwy

o wybodaeth am sut mae'r Bwrdd yn sicrhau gweithrediad, cydymffurfriad a gwaith gwerthuso.

S27.3 Prin oedd y dystiolaeth a ddarparwyd o'r dulliau sydd ar waith i sicrhau bod aelodau'r staff yn ymwybodol o fecanweithiau hysbysu am lywodraethu a'u bod wedi'u cynnwys ynddynt, ac ni ddarparwyd tystiolaeth yr aseswyd effeithiolrwydd y prosesau a nodwyd. Mae systemau wedi'u sefydlu i frifio a sicrhau bod aelodau'r staff yn cael eu cynnwys yn briodol mewn trefniadau ariannol ac mae aelodau'r staff wedi gallu cynnig eu safbwyntiau trwy Arolwg Bodlonrwydd ar-lein gan yr Adran Gyllid hefyd. Disgrifiwyd systemau a phrosesau ar gyfer rheoli risg ac mae risgiau sefydliadol a chlinigol wedi'u cynnwys ynddynt.

S27.4 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth ddangos ei bod yn datblygu proses lywodraethu integredig a bod y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio'n cyflawni gwaith craffu'n rheolaidd.

### **Safon 28**

*Mae cyrff gofal iechyd:*

- a. *yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- b. *yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- c. *yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S28.2 Mae strategaethau, polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu. Adolygir y polisïau'n rheolaidd. Sicrheir cydymffurfriad a chynnydd yn erbyn y strategaethau hyn trwy adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Mae adroddiadau'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn dangos bod cydymffurfriad yn cael ei fonitro. Mae cyfrifoldebau diwygiedig y cyfarwyddwr meddygol cyswllt yn cynnwys rheoli gwaith llywodraethu clinigol yn weithredol mewn ardaloedd clinigol.

S28.3 Mae gan bob Grŵp Gwasanaeth Bwyllgor Llywodraethu Clinigol, a fynychir gan y Rheolwr Cyffredinol, y Pennaeth Nyrsio, yr Arweinydd Llywodraethu Clinigol, yr Hwylusydd Llywodraethu Clinigol a chynrychiolwyr o Dimau Rheoli'r Cyfarwyddiaethau. Trafodir materion llywodraethu clinigol, yn cynnwys cwynion a digwyddiadau yn y pwyllgorau, ac adroddir y materion hyn i CSPEC yn ôl yr angen.

S28.4 Mae cyfraniad aelodau'r staff ar waith llywodraethu clinigol yn cael ei fonitro trwy sesiynau Llywodraethu Clinigol parhaus y Gyfarwyddiaeth. Bydd rhai Cyfarwyddiaethau hefyd yn cynnal cyfarfod ychwanegol pan maent yn teimlo bod materion allweddol y mae angen eu trafod ymhellach. Mae'r dyddiadau ar gyfer sesiynau Llywodraethu Clinigol parhaus yn cael eu pennu'n ganolog yn yr Adran Cymorth Llywodraethu Clinigol. Mae sesiynau'r Gyfarwyddiaeth yn amlddisgyblaeth.

S28.5 Mae hyfforddiant Llywodraethu Clinigol yn ofyniad gorfodol (bob dwy flynedd) ar gyfer holl aelodau'r staff clinigol. Ategir yr hyfforddiant gan lyfryn *Clinical Governance Explained*.

S28.6 Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn darparu tystiolaeth y bodlonir y safon hon, gan fod aelodau'r staff yn cymryd rhan mewn mentrau llywodraethu clinigol. Darparodd amrywiaeth o enghreifftiau hefyd o sut mae aelodau'r staff yn defnyddio egwyddorion llywodraethu clinigol i gynnal a gwella gofal i gleifion.

S28.7 Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon. Roedd angen bod yn fwy eglur am swyddogaeth y Bwrdd ar gyfer monitro, gwerthuso a sicrhau gwelliant parhaus er mwyn cytuno â'r aeddfedrwydd Ymarferol ar y lefel Gorfforaethol.

## 4.4 Iechyd y Cyhoedd

### **Safon 29**

*Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:*

- a. drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- b. drwy sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesuadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

S29.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S29.2 Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Lleol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg trwy aelodaeth ymarferol ar lefel Weithredol y partneriaethau strategol cyfrifol h.y. Cynghrair Iechyd Caerdydd a Phartneriaeth Bro Morgannwg. Cynrychiolir yr Ymddiriedolaeth yn llawn hefyd ar y grwpiau cynllunio partneriaeth a sefydlwyd i ategu'r strategaethau. Mae trefniadau tebyg i gefnogi partneriaethau strategol allweddol eraill, yn cynnwys Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

S29.3 Mae'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Iechyd yn fenter partneriaeth fawr rhwng yr Ymddiriedolaeth â'i dau Fwrdd Iechyd Lleol, i gynorthwyo'r datblygiad o wasanaethau gofal iechyd â ffocws allweddol ar reoli cyflyrau hirdymor a datblygu gwasanaethau i gefnogi'r lefel gyntaf o ofal a adlewyrchir yn y Cynllun Oes.

S29.4 Derbynnir Cyngor Iechyd Cyhoeddus trwy Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICCC). Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cyflogi Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus sydd ar secondiad yng Nghomisiwn Iechyd Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Ymgynghorydd yn mynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd i ddarparu mewnbwn iechyd cyhoeddus.

S29.5 Ledled dwy ardal awdurdod lleol Caerdydd a'r Fro, y blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yw hybu, amddiffyn a lleihau anghydraddoldeb iechyd:

- Plant a Phobl Ifanc
- Pobl ag anghenion iechyd meddwl
- Pobl ag anabledau
- Pobl hŷn
- Gwella ffyrdd o fyw a lles (smygu, gordewdra, iechyd rhywiol, camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill ac ati).
- Sicrhau'r defnydd gorau posibl o adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol

S29.6 Yng Nghaerdydd, mae cymunedau ag anghenion penodol, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl ddigartref, ceiswyr lloches, sipsiwn a theithwyr wedi bod yn flaenoriaeth benodol ac mae gan yr Ymddiriedolaeth swyddogaeth allweddol i ddatblygu amrywiaeth o ymatebion gwasanaeth i ddiwallu eu hanghenion.

S29.7 Mae gan bob maes gwella iechyd allweddol gynllun gweithredu manwl a threfniadau monitro sy'n adrodd ar gynnydd drwy'r grwpiau partneriaeth.

S29.8 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar bob lefel ar gyfer y safon hon.

### **Safon 30**

*Mae cyrff gofal iechyd:*

- a. *yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac*
- b. *yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S30.2 Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu rhaglenni atal afiechyd a reolir, megis Prosiect Heartlink, gwasanaethau asesu gofal henoed, gwasanaethau methiant y galon, gwasanaethau poenau yn yr ysgyfaint. Nid yw'n eglur o gyflwyniad yr Ymddiriedolaeth sut y'u datblygwyd, sut yr ystyrir canllawiau cenedlaethol a

blaenoriaethau y cytunir arnynt yn lleol, sut mae cleifion a'r cyhoedd yn dylanwadu ar y rhaglenni hyn a sut mae unigolion yn cael eu hannog i gydnabod eu cyfrifoldebau eu hunain o ran cynnal eu hiechyd a'u lles.

S30.3 Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr ond rydym o'r farn mai dim ond **Ymatebol** yw'r asesiad ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

### **Safon 31**

*Mae cyrff gofal iechyd:*

- a. *yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*
- b. *yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldeb iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c. *yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldeb iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd;*
- ch. *yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1 Gweler yr ymateb i Safon 18.

### **Safon 32**

*Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.*

S32.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S32.2. Enillodd yr Ymddiriedolaeth y Dyfarniad Arian ym mis Ebrill 2003 ac mae bodloni'r Safon Iechyd Corfforaethol wedi'i gynnwys fel rhan o ddyletswyddau'r Prif Weithredwr.

S32.3. Rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr felly.

Mae crynodeb o lefelau aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon a aseswyd gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro trwy ei hunanasesiad a chan AGIC yn dilyn prosesau profi a gwerthuso ar gael yn Atodiad 2.

## **5. Camau Nesaf**

5.1. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Cytunir ar y cynllun hwn gan Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn monitro gweithrediad fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd ar waith ar gyfer GIG Cymru. Bydd y cynllun ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth

5.2. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i wella'r dull asesu a'i wneud yn fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol ac alinio'r broses hunanasesu Safonau Gofal Iechyd gyda'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru gyfan ym mis Tachwedd 2007 a bydd yn integreiddio canfyddiadau adroddiadau unigol yn drosolwg o'r sefyllfa ledled Cymru. Bydd yr adroddiad yn pwysleisio'r themâu allweddol a'r meysydd risg a amlygwyd gan y broses asesu Safonau Gofal Iechyd.



**Diffiniadau o Lefel Aeddfedrwydd**

	<b>Ymwybodol</b>	<b>Ymatebol</b>	<b>Datblygol</b>	<b>Ymarferol</b>	<b>Arweiniol</b>
<b>Corfforaethol</b>	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion i fynd i'r afael â hwy ond ni allant ddangos penderfyniadau/ camau i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol sydd â thystiolaeth o arferion da ledled y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ledled y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy roi arferion arloesol ar waith a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill, gan alluogi cynaliadwyedd hirdymor i gael ei wireddu.
<b>Gweithredol</b>	Mae ymwybyddiaeth o'r materion i fynd i'r afael â hwy, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â hwy.	Mae ymwybyddiaeth o'r materion allweddol i fynd i'r afael â hwy a nodwyd amrywiaeth o ddewisiadau er mwyn mynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol ledled y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda'n cael eu rhoi ar waith ledled y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arferion arloesol, a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
<b>Profiad y Defnyddiwr</b>	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda yn gyffredinol er y datblygwyd dulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ledled y sefydliad hyd yn hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn rhagorol yn gyffredinol a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth eglur o arferion da, y gellir eu rhannu.

**Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon**

**Allwedd**

L	Arweiniol
P	Ymarferol
D	Datblygol
R	Ymatebol
A	Ymwybodol

**Safon 1**

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	R	↑	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

**Safon 2**

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

**Safon 3**

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

**Safon 4**

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 5

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 6

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 7

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 8

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	R	↔	D

### Safon 9

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 10

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 11

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Standard 12

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	P

### Safon 13

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

### Safon 14

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

### Safon 15

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	R	↑	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 16

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 17

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 18

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 19

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 20

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

### Safon 21

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 22

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 23

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 24

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 25

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	R	↔	R

### Safon 26

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 27

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 28

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 29

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 30

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Aseiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D



### Safon 31 – Ddim yn gymwys

### Safon 32


	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Aseiad AGIC
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	P

### Atodiad 3


## Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Canlyniadau Corfforaethol, Gweithredol/ Clinigol a Lefelau Profiad y Defnyddiwr




### Sgoriau Lefel Aeddfedrwydd Canlyniadau Gweithredol/Clinigol



### Sgoriau Lefel Aeddfedrwydd Profiad y Defnyddiwr



### Cytuno/Anghytuno gyda Sgôr yr Ymddiriedolaeth



### Rhestr Termau Allweddol

**Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan** – yn darparu cyngor i'r Gweinidog dros iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau'n strategol.

**cerdyn sgorio cytbwys** - system reoli sy'n cynnig model y gall sefydliad ei ddefnyddio i egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u troi'n gamau gweithredu. Mae'n cynorthwyo gwelliant parhaus i berfformiad sefydliadol.

**Gwarcheidwad Caldicott** - uwch glinigwr ym mob sefydliad y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a adolygodd y broses o ddiogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

**llwybr gofal** – set o gamau trin a gofal a ddiffiniwyd sydd â'r nod o ddiwallu anghenion penodol pob claf.

**archwiliad clinigol** – gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwerthuso a mesur pa mor dda maent yn bodloni safonau a bennwyd ar gyfer eu gwasanaethau.

**llywodraethu clinigol** – fframwaith sy'n gwneud sefydliadau'r GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau'n barhaus a diogelu safonau uchel o ofal.

**rhwydweithiau clinigol** – grŵp o wasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau sefydliadol i ddarparu gofal gwell i gleifion.

**canlyniad clinigol** – effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

**Cyngor Iechyd Cymuned** - sefydliadau dielw, hybu iechyd, eiriolaeth a pholisi cymunedol. Sefydlwyd y Cyngorau ym 1992 er mwyn cynyddu cyfraniad y gymuned at y broses o ddiffinio polisi'r wladwriaeth a pholisi lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd a'i ansawdd. Mae'r Cyngorau'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn y GIG ac mae ganddynt hawl statudol i gael eu hymgynghori ar newidiadau iechyd yn eu hardaloedd.

**Swyddfa Cofnodion Troseddol** - asiantaeth weithredol a sefydlwyd i gynorthwyo sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth am gofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa'n cynorthwyo cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gwaith sy'n golygu cysylltiad â phlant neu aelodau eraill o gymdeithas Agored i Niwed.

**diogelu data** – gofyniad i gyrff cyhoeddus ac eraill weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Mae cyfrifoldebau o'r fath yn ddyletswyddau dan Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron, sydd â'r nod o ddiogel data sydd gan sefydliadu ar unigolion.

**Cynllun Oes** - yn nodi'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'n sefydlu strategaeth 10 mlynedd i'w gwireddu. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, pob un yn para tua thair blynedd. Maent yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Darparu Safonau Uwch a; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau ymhlith y Gorau yn y Byd.

**Safonau Gofal Iechyd** – fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon o ansawdd ym mhob lleoliad iechyd.

**rheoli heintiau** – set o weithdrefnau i atal heintiau rhag lledaenu, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer diheintiedig ac ati.

**Byrddau Iechyd Lleol (BILI)** - cyrff statudol sy'n gyfrifol am roi strategaethau ar waith i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

**Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)** - cyrff hunanlywodraethol o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Ymddiriedolaethau'n cyflogi pob math o weithwyr proffesiynol gofal iechyd, yn cynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, ac ati. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawdriniaeth mewn ysbytai fel rheol. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, yn y gymuned fel rheol, ee nyrsys ardal, ciropodyddion, ac ati. Mae ymddiriedolaethau cyfunol yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaethau cymunedol ac aciwt dan un bwrdd rheoli.

**Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol** - awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau i'r GIG a chleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

**Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA)** - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydlynu ymdrechion y wlad i gyd i roi adroddiadau am gamgymeriadau sy'n effeithio ar ddiogelwch claf ac, yn bwysicach, i ddysgu o'r camgymeriadau hyn.

**Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru** - yn darparu pob math o wasanaeth iechyd cyhoeddus gyda'r nod o: wella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; amddiffyn rhag afiechydon a bygythiadau iechyd cyfredol a newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg a; chyfrannu ar wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol** – canllawiau i'r gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o afiechyd a salwch.

**Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd** – strategaeth a gynlluniwyd i sicrhau yr ystyrir sylwadau a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofaluwr a'r cyhoedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

**Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol y Coleg Nyrso Brenhinol** - rhaglen sy'n neilltuo amser i nyrsys arsylwi gofal a'r ddarpariaeth o wasanaethau, a chyfweld â chleifion am y ddarpariaeth o ofal. Bwriad y rhaglen yw galluogi nyrsys i ddatblygu eu galluoedd arwain a'u gwneud yn fwy effeithiol, gwella sgiliau tîm a sefydliadol a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

**Datganiadau o Reolaeth Fewnol** - datganiad ar drefniadau corff cyffredinol y GIG ar gyfer sicrhau bod y prif beryglon mewn sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

**Bwrdd yr Ymddiriedolaeth** -grŵp o bobl sy'n gyfrifol yn ôl y statud am wneud penderfyniadau mawr am strategaethau a pholisïau ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG. Fel rheol, mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pump o aelodau lleyg, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

**Cronfa Risg Cymru** - cydgyllun hunan-sicrhau ar gyfer pob corff iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad rheoli risg da ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau a nodwyd.